**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Oddi wrth: Llywodraeth Cymru**

**Dyddiad: 16 Tachwedd 2017**

**Amser: 09:15-10:45**

**Teitl: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 - Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg**

**Cyflwyniad**

1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gynigion y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19[1], a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses newydd dau gam. Cyhoeddwyd y gyhoeddi cyllideb amlinellol (cam 1) ar 3 Hydref ac yna'r gyllideb fanwl (cam 2) ar 24 Hydref. Mae hefyd yn darparu diweddariad ar feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

**Cefndir**

2. Mae Cyllideb Ddrafft 2018-19 yn darparu cynllun dwy flynedd ar gyfer buddsoddi refeniw a chynllun tair blynedd ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn perthynas â darparu addysg yng Nghymru. Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r MEG Addysg arfaethedig a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2018-19.

| **Addysg - Crynodeb** | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20** |
|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 1,478,335 | 1,465,877 | 1,436,289 |
| DEL Cyfalaf | 100,813 | 168,061 | 176,145 |
| **Cyfanswm y DEL** | **1,579,148** | **1,633,938** | **1,612,434** |
| AME Adnoddau | -104,958 | -128,382 | -138,399 |
| AME Cyfalaf | 513,397 | 658,439 | 816,483 |
| **Cyfanswm yr AME** | **408,439** | **530,057** | **678,084** |
| **Cyfanswm - Cyllideb Addysg** | **1,987,587** | **2,163,995** | **2,290,518** |

**CRYNODEB O'R DEL ADNODDAU a Chyfalaf £000oedd**

| | **Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18** | **Addasiadau Gwaelodlin** | **Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gwreiddiol 2018-19** | **Newidiadau 2018-19** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

[1] Yn y papur hwn mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academaidd sy'n cwmpasu'r cyfnod o 1 Awst tan 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sef y cyfnod o 1 Ebrill tan 31 Mawrth

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DEL Adnoddau | 1,478,335 | -40,736 | 1,437,599 | 28,278 | 1,465,877 | 1,436,289 | - |
| DEL Cyfalaf | 100,813 | 0 | 128,061 | 40,000 | 168,061 | 176,145 | 153,890 |
| **Cyfanswm y DEL** | **1,579,148** | **-40,736** | **1,565,660** | **68,278** | **1,633,938** | **1,612,434** | **153,890** |

3. Mae ffigurau'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer 2017-18 wedi'u diwygio, gan ddileu unrhyw ddyraniadau untro fel rhan o'r gyllideb atodol honno neu gyllidebau blaenorol, gan gynnwys unrhyw drosglwyddiadau parhaol o un MEG i'r llall. Y rheswm am hyn yw er mwyn gallu cymharu tebyg at ei debyg rhwng cyllidebau 2017-18 a chyllideb ddrafft 2018-19.

4. Mae'r tabl canlynol yn dangos y cysoni o'r Gyllideb Atodol Gyntaf gyhoeddedig ar gyfer 2017-2018 i gyllideb waelodlin ddiwygiedig 2018-19 ar gyfer elfen adnoddau'r MEG.

| **DEL Adnoddau** | **£000** |
|---|---|
| Cyllideb Atodol Gyhoeddedig Gyntaf 2017-18 | 1,478,335 |
| Trosglwyddo o Her Ysgolion Cymru | (1,700) |
| Cymhellion hyfforddi athrawon | (1,000) |
| Dileu dyraniad untro ar gyfer cytundeb cyllideb - Cyllid AU / cyllid AB a llwybrau dysgu | (30,000) |
| Cymraeg i Oedolion / Asiantaeth Iaith Genedlaethol | (5,000) |
| Dileu trosglwyddiad o'r MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i'r MEG Addysg - Cynllun Bwrsariaeth y GIG | (800) |
| Addasiadau Buddsoddi i Arbed | (2,236) |
| **Gwaelodlin diwygiedig 2018-19** | **1,437,599** |

5. Cyhoeddwyd cyllidebau cyfalaf am bedair blynedd fel rhan o gyllideb ddrafft 2017-18, a oedd yn cynnwys cynnydd ar gyfer y blynyddoedd i ddod o £27.2 miliwn (2018-19), £34.9 miliwn (2019-20) a £43.1 miliwn (2020-21). Mae'r cynnydd hwn yn bennaf er mwyn galluogi'r ddarpariaeth ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith i gefnogi'r Cynnig Gofal Plant a fydd yn cael ei gyflwyno ar y cyd â Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif o 2018-19 ymlaen. Ni wnaed unrhyw addasiadau pellach i'r gwaelodlinau hyn fel rhan o gyllideb ddrafft 2018-19.

6. O ran adnoddau, mae hyn yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o £28.3 miliwn (2018-19) o gymharu â'r gwaelodlin diwygiedig a gostyngiad o £29.6 miliwn (2019-20) o'i gymharu â'r cynlluniau drafft newydd ar gyfer 2018-19. Mae'r symudiadau wedi'u nodi yn y manylion o dan y Camau gweithredu perthnasol yn **Atodiad A**. I grynhoi, mae'r symudiadau ar gyfer 2018-19 a 2019-20 fel a ganlyn:

| 2018-19 | £000 |
|---|---|
| Arbedion o ran grantiau wedi'u neilltuo gan Awdurdod Lleol | (15,000) |
| Cymorth ar gyfer gweithredu argymhellion Diamond | 5,000 |
| Cytundeb Cyllideb Plaid Cymru: Cyllid lliniaru AU/AB | 20,000 |
| Cytundeb Cyllideb Plaid Cymru: Darpariaeth well o ran adnoddau addysg dwyieithog | 500 |
| Cytundeb Cyllideb Plaid Cymru: Mudiad Meithrin | 1,000 |
| Cytundeb Cyllideb Plaid Cymru: Blaenoriaethau Cerddoriaeth | 1,000 |
| Cytundeb Cyllideb Plaid Cymru: Cyllid ar gyfer y Gymraeg | 5,000 |
| Trosglwyddo o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - Buddsoddi i Arbed | 2,524 |
| Trosglwyddo i'r MEG Cymunedau a Phlant - Y Blynyddoedd Cynnar a'r Gweithlu Gofal Plant | (30) |
| Trosglwyddo o'r MEG Cymunedau a Phlant - Mudiad Meithrin | 300 |
| Cynnydd net yn y MEG Addysg - swm a drosglwyddwyd o'r Cronfeydd Wrth Gefn | 7,984 |
| **DEL Adnoddau - cynnydd net** | **28,278** |

| 2019-20 | £000 |
|---|---|
| Arbedion o ran grantiau wedi'u neilltuo gan Awdurdod Lleol | (18,920) |
| Safonau Ysgolion | 500 |
| Cymorth ar gyfer gweithredu argymhellion Diamond | 5,000 |
| Trosglwyddo i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu - Buddsoddi i Arbed | (1,044) |
| Gostyngiad net i'r MEG Addysg - swm wedi'i drosglwyddo yn ôl i'r Cronfeydd Wrth Gefn | (15,124) |
| **DEL Adnoddau - gostyngiad net** | **(29,588)** |

7. Fel rhan o'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2018-19, gwnaed dyraniadau cyfalaf pellach ac fe'u crynhoir yn y tabl isod:

| | 2018-19 £000 | 2019-20 £000 | 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|
| Rhesymoli'r Ystâd Addysg Uwch | 10,000 | 10,000 | 10,000 |
| Gwaith cynnal a chadw sy'n aros i'w wneud yn y Sector Addysg Bellach | 5,000 | 5,000 | |
| Cyfarpar o safon diwydiant ar gyfer y Sector Addysg Bellach | 5,000 | 5,000 | |
| Rhaglen Addysg ac Ysgolion y 21ain Ganrif | 20,000 | 20,000 | |
| Cyllid Buddsoddi i Arbed i gefnogi'r Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd | | 400 | |
| **DEL Cyfalaf - cynnydd net** | **40,000** | **40,400** | **10,000** |

8. Mae'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn gysylltiedig â benthyciadau myfyrwyr sy'n cael eu harwain gan y galw ac sy'n sensitif i gyfradd llog a ffactorau macroeconomaidd eraill ac felly'n anodd eu rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon gyda'r Trysorlys bob blwyddyn ac fe'i hariennir yn

llawn. Cafwyd cynnydd o £121.6 miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2018-19 a £148 miliwn arall yn 2019-20.

9. Cyhoeddwyd y cynlluniau cyllideb manwl ar gyfer y MEG Addysg ar 24 Hydref. Er tryloywder, darperir dadansoddiad o'r newidiadau i'r MEG Addysg yn ôl y Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yn **Atodiad B**. Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion am ddyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, rhagolwg o alldro 2017-18 ac alldro terfynol 2016-17. Yn unol â chais y Pwyllgor, mae unrhyw BEL y trosglwyddwyd cyllid ohoni yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2017-18, oherwydd newidiadau portffolio, wedi'u hamlygu (mewn gwyrdd) ac mae ffigurau alldro ar gyfer 2016-17 wedi'u diwygio i alluogi cymariaethau â chyllideb ddrafft 2018-19.

## Cyd-destun y Gyllideb - Blaenoriaethau Addysg

10. Mae'r gyllideb hon yn ymrwymedig i lwyddiant a llesiant pob dysgwr, beth bynnag yw ei gefndir neu ei amgylchiadau personol. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid inni gyfuno teegwch â rhagoriaeth wrth inni godi safonau ar draws y system addysg yng Nghymru, ymrwymiad a rennir ar draws y Llywodraeth.

11. Mae'r gwaith o ddatblygu ein cwricwlwm newydd yn prysur fynd rhagddo a bydd ein holl ddiwygiadau ysgol yn seiliedig arno, a dyma fydd y sail ar gyfer symud ymlaen i addysg ôl-orfodol a dysgu gydol oes.

12. Mae safonau proffesiynol newydd i athrawon, darpariaeth gryfach o ran addysg gychwynnol i athrawon yn y ddwy iaith, trefniadau asesu ffurfiannol, ymrwymiad i nodi a chefnogi arweinyddiaeth, a diwygio ein dull o ymdrin â darpariaeth ddysgu ychwanegol yn flaenoriaethau allweddol.

13. Rydym yn anelu at ddatblygu plant a phobl ifanc sydd â'r agweddau a'r addysg sydd eu hangen arnynt ar gyfer gweddill eu bywydau, sy'n gallu ymuno â'r byd gwaith yn hyderus neu wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae addysg bellach ac addysg uwch yn eu cynnig. Byddwn yn cyflwyno system gynllunio strategol newydd ar gyfer addysg ôl-16 ac yn sicrhau dilyniant cydlynol drwy'r sectorau addysg ôl-16 a rhyngddynt, fel bod llwybr dysgu unigolyn yn diwallu ei anghenion a'i ddyheadau, ac yn rhoi i gyflogwyr y staff medrus sydd eu hangen arnynt er mwyn cefnogi economi a chymunedau Cymru.

14. Mae'r portffolio Addysg yn gyfrifol am ddatblygu nifer o'r blaenoriaethau a nodir yn Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017), yn bennaf o dan y thema 'Uchelgeisiol ac yn Dysgu'.

15. Ym mis Medi, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer Addysg yng Nghymru 2017-21 - Cenhadaeth ein Cenedl. Gyda gweithredu'r cwricwlwm newydd yn ganolog iddo, mae'r cynllun gweithredu yn nodi amserlenni a chamau gweithredu ar draws y meysydd arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a rhagoriaeth a chydraddoldeb mewn system hunan-wella. Mae pob polisi yn cyd-fynd yn llawn â'r thema Uchelgeisiol ac yn Dysgu ac yn anelu at godi

safonau i bawb, lleihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

16. Y deg blaenoriaeth ar gyfer addysg yng Nghymru y cytunais arnynt gyda'r Prif Weinidog ac sydd bellach yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer y portffolio yw:

- Lleihau maint dosbarthiadau babanod;
- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd drwy Grant Datblygu Disgyblion ehangach;
- Rhoi blaenoriaeth i ysgolion o ran cael mynediad i fand eang cyflym iawn o fewn y rhaglen genedlaethol;
- Cymell, cydnabod a hyrwyddo rhagoriaeth yn y maes addysgu er mwyn codi safonau yn gyffredinol;
- Hyrwyddo a gwella llwybrau academaidd a galwedigaethol i addysg bellach ac uwch a thrwy addysg bellach ac uwch, a rolau cenedlaethol, rhyngwladol a dinesig ein sefydliadau addysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd llawn amser a rhan amser a fydd o fudd i ddysgwyr o bob oed, cyflogwr a chymunedau.
- Adolygu effaith y polisi cyfredol ar leoedd gwag mewn ysgolion gyda phwyslais ar ysgolion gwledig, i ystyried tueddiadau twf yn y dyfodol yn well;
- Ymgynghori ymhellach ar argymhellion penodol adolygiad Hazelkorn;
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o ehangu cylch gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynnwys addysg bellach;
- Rhoi blaenoriaeth i gefnogaeth ar gyfer gwell cysylltiadau rhwng addysg a diwydiant, gan alluogi arloesedd ac entrepreneuriaeth ar draws ein sectorau cyhoeddus a phreifat mewn cydweithrediad â'n prifysgolion a'n colegau;
- Ystyried argymhellion Adolygiad Diamond gyda'r nod o roi camau ar waith yn gynnar lle y bo'n briodol, ond heb unrhyw effaith negyddol ar y gyllideb addysg uwch os bydd unrhyw newidiadau.

**Monitro'r gyllideb**

17. Gan adeiladu ar waith a wnaed ar gyfer cyllidebau blaenorol, rydym wedi cynnal adolygiad parhaus llinell wrth linell o gyllidebau er mwyn nodi sut y gellir rheoli gostyngiadau pellach tra'n parhau i adlewyrchu ein blaenoriaethau. Er inni orfod gwneud penderfyniadau anodd, mae ein blaenoriaethau ar gyfer addysg yng Nghymru wedi aros yr un fath ac mae ein cynlluniau gwariant a gyhoeddwyd ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn adlewyrchu hyn.

18. Mae'r holl gyllidebau wedi cael eu monitro a'u herio bob mis yn ystod 2017-18, ac maent yn parhau i gael eu monitro a'u herio, i ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau'r gyllideb yn ôl yr angen. Rwy'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd ar y rhagolygon ar gyfer y MEG Addysg i sicrhau bod cyllidebau yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r blaenoriaethau ar gyfer Cymru.

**Gwariant Ataliol**

19. Gan adeiladu ar gyllidebau blaenorol, o fewn y portffolio Addysg, rydym yn parhau i fuddsoddi adnoddau sylweddol mewn meysydd o wariant ataliol er

mwyn cefnogi dysgu proffesiynol a chydnerthedd ein hymarferwyr mewn ysgolion, cyflwyno cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol, codi safonau llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad. Bydd y rhaglenni a'r camau gweithredu hyn yn effeithio ar blant drwy gydol eu haddysg, ond byddant hefyd yn darparu ymyriadau cynnar allweddol yn eu haddysg ac yn rhoi sylfaen gadarn iddynt ar gyfer eu haddysg barhaus a fydd yn ei dro yn cynyddu eu cyfleoedd yn y farchnad lafur.

20. Prif gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yw'r Grant Cynnal Refeniw. O fewn y MEG Addysg, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid i ysgolion yn gyllid ataliol, wedi'i anelu at sicrhau gwelliant, codi safonau a darpariaeth y blynyddoedd cynnar. Mae hyn yn cynnwys mwy na £200 miliwn drwy'r Grant Gwella Addysg a'r Grant Datblygu Disgyblion; £168 miliwn ar gyfer y Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif; £7.5 miliwn ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd; a hefyd £10 miliwn i gefnogi Diwygio'r Cwricwlwm.

21. Mae addysg bellach yn bwysig yn yr ymgyrch i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) a chynyddu lefelau sgiliau pobl ifanc cyn iddynt fynd i fyd gwaith.

22. Mae sefydliadau addysg uwch yn hyfforddi gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ac addysg y dyfodol ac yn cynhyrchu ymchwil sy'n arwain y byd, sydd oll yn helpu i ddiogelu iechyd a llesiant cymdeithasol ac economaidd cenedlaethau'r dyfodol.

23. Mae prifysgolion yn cyfrannu £1.3 biliwn y flwyddyn at economi Cymru ac yn darparu dros 16,000 o swyddi yng Nghymru, gan gynhyrchu dros £400 miliwn y flwyddyn mewn buddsoddiadau allforio.

**Effaith Brexit**

24. Sefydlodd Llywodraeth Cymru dîm penodol i gydlynu materion Pontio Ewropeaidd ac mae'n gweithio'n agos gyda'r tîm presennol ym Mrwsel ac adrannau polisi.

25. Mae ein prifysgolion yn gweithio gyda phartneriaid ledled Ewrop a thu hwnt. Rydym am i fyfyrwyr Cymru barhau i gael y cyfle i gael addysg yn Ewrop (drwy barhau i gymryd rhan yng nghynllun ERASMUS + er enghraifft), ac rydym am i ymchwilwyr yng Nghymru barhau i gydweithio â rhwydweithiau ymchwil ac arloesi Ewropeaidd (er enghraifft, drwy barhau i gymryd rhan yn Horizon 2020).

**Symudiad myfyrwyr/ymchwilwyr**

26. Ym mis Medi y llynedd, sefydlais Weithgor Brexit ar gyfer AU fel fforwm i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y sector AU. Mae'r Grŵp yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn ac mae'n rhoi cyngor ar effaith Brexit ar y sector AU yng Nghymru.

27. Mae dogfen bolisi Llywodraeth Cymru "Tegwch o Ran Symudiad Pobl" a gyhoeddwyd ar 7 Medi yn cynnwys trafodaeth ar oblygiadau Brexit a pholisi

mudo Llywodraeth y DU i fyfyrwyr rhyngwladol yng Nghymru ac yn tynnu sylw at bryderon Llywodraeth Cymru ynghylch y dull o ymdrin â mudo yn y dyfodol i Gymru.

28. At hynny, mae rhanddeiliaid yn y sector AU yng Nghymru wedi codi eu pryderon ynghylch yr effaith andwyol y gallai'r naratif yn ymwneud â barn Llywodraeth y DU ar fudo ac agweddau tuag at fyfyrwyr tramor ei chael ar ganfyddiad y myfyrwyr o'r DU a Chymru fel cyrchfan astudio bosibl.

29. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod symudedd parhaus ar draws Ewrop ar gyfer myfyrwyr ac ymchwilwyr er lles gorau Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd, ac wedi cyfleu ei barn yn glir na ddylai myfyrwyr gael eu cynnwys mewn targedau mudo net.

30. Mae "Tegwch o Ran Symudiad Pobl" hefyd yn ei gwneud yn glir ei bod yn hanfodol nad yw polisi Llywodraeth y DU a'r negeseuon y mae'n eu hanfon yn tanseilio'n sylweddol allu prifysgolion i ddenu myfyrwyr rhyngwladol, a bod sefyllfa deg ar draws y DU.

**Ymchwil**

31. Yn wyneb Brexit, mae bygythiad o golli mynediad i arian sy'n cefnogi ein rhaglenni ymchwil cydweithredol. Mae'n hanfodol ein bod yn dechrau ymchwilio i'n hanghenion ar gyfer y dyfodol, a dulliau i gefnogi ymchwil ar y cyd yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i Gymru lle mae cymaint o'n gwaith ymchwil rhagorol yn gydweithredol ei natur.

32. Mae'r ymchwil hwn yn eithriadol o bwysig i Gymru yn economaidd. Ni ddylem danamcangyfrif ei werth posibl yn y dyfodol na gallu gwaith ymchwil i arwain at fuddsoddiad tymor hwy, gan elusennau ymchwil, busnesau, llywodraethau Cymru a'r DU ac asiantaethau rhyngwladol.

33. Bydd y camau nesaf yn golygu siarad â'r cyrff newydd ledled y DU fel UKRI (UK Research and Innovation). Mae angen inni hefyd ddeall faint o adnoddau a buddsoddiad sydd eu hangen i ganiatáu i Gymru wneud y defnydd gorau o'n harbenigedd a'n mynediad posibl i gyfleoedd cyllido cydweithredol.

34. Yma yng Nghymru, mae'r Athro Reid yn casglu tystiolaeth ar gyfer ei adolygiad o ymchwil ac arloesi a ariennir gan y Llywodraeth. Comisiynwyd hyn gan Lywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at dderbyn ei argymhellion y flwyddyn nesaf. Gyda Brexit, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a Gwyddoniaeth i Gymru yn gefndir, nod yr adolygiad yw ein helpu i ystyried sut y gallwn wella perfformiad ymchwil yn y dyfodol.

**Costau Deddfwriaeth**

35. Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried ein rhaglen ddeddfwriaethol bresennol.

### *Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)*

36. Nodir y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil. Rhyddhawyd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar 8 Medi. Mae hyn yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r dystiolaeth a gafwyd wrth graffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1.

37. Er gwaethaf y newidiadau hyn, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn dal i ragweld arbedion parhaus i'r sector cyhoeddus ar ôl i'r Bil gael ei weithredu. Disgwylir i'r system anghenion dysgu ychwanegol newydd gostio llai i'w rhedeg na'r system anghenion addysgol arbennig bresennol. Mae'r cyfleoedd i awdurdodau lleol wneud arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwireddu mewn meysydd sydd eisoes yn gweithredu agweddau ar y system newydd. Mae'r awdurdodau hyn yn gwario llai ac yn ailgyfeirio adnoddau tuag at gefnogi plant a phobl ifanc.

38. Bydd costau ymlaen llaw yn gysylltiedig â gweithredu'r Bil. Rydym wedi bod yn glir o'r cychwyn y bydd angen buddsoddi mewn trefniadau pontio o'r system bresennol i'r system newydd. Bydd y cyllid gwerth £20 miliwn ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid ADY, yr ydym eisoes wedi'i gyhoeddi, yn cwmpasu cost gweithredu'r Bil yn ei gyfanrwydd. Ni fyddwn yn gofyn i bartneriaid cyflawni ariannu'r broses weithredu - bydd y Llywodraeth yn talu'r gost honno.

39. Mae'r pecyn cyllido £20 miliwn yn mynd y tu hwnt i symud o un system statudol i un arall, a hynny'n fwriadol. Bydd yn buddsoddi mewn newidiadau diwylliannol a newidiadau mewn ymarfer ac uwchsgilio'r gweithlu. Mae'r gwaith hwn eisoes ar y gweill.

### *Gwybodaeth am effaith unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol gan Senedd y DU*

40. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU sy’n effeithio ar addysg yng Nghymru.

### *Goblygiadau Ariannol sy'n deillio o unrhyw is-ddeddfwriaeth yn 2018-19*

41. Nid oes goblygiadau ariannol yn deillio o unrhyw is-ddeddfwriaeth yn 2018-19. Fodd bynnag, os bydd y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cael ei basio gan y Cynulliad, bydd goblygiadau ar gyfer y cyfnod hwn fel yr amlinellir uchod ac yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

### Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

42. O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Nid yw'r Asesiad ar wahân o Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllideb Ddrafft amlinellol 2018-19 ac ar gyfer y MEG Addysg wedi'i gyhoeddi ar wahân. Yn hytrach mae'n rhan o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Mae hyn eto wedi ein galluogi i roi ystyriaeth lawn i anfantais

economaidd-gymdeithasol, hawliau plant, y Gymraeg a datblygu cynaliadwy, yn ogystal â'r ffocws ar gydraddoldeb a threchu tlodi.

43. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft amlinellol ar gyfer 2018-19 (Atodiad E). Mae hyn yn darparu asesiad o effaith y gyllideb ar ysgolion, Addysg Ôl-16 ac Addysg Uwch o dan y maes 'uchelgeisiol ac yn dysgu' fel y cyhoeddwyd yn *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*.

44. Un o flaenoriaethau allweddol y Gyllideb Ddrafft yw ein ffocws ar wasanaethau lleol, gan gydnabod bod sut yr ydym yn cyflawni pethau ar gyfer Cymru yr un mor bwysig â'r hyn yr ydym yn ei gyflawni i Gymru. Mae cynlluniau lefel uchel Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Ddrafft amlinellol yn dal i adlewyrchu ein pwyslais ar hawliau plant, y Gymraeg a mynd i'r afael ag anfantais. Mae'r rhain yn feysydd allweddol yn Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, sy'n amlinellu ein cynllun gweithredu ar gyfer Cymru hyd 2021.

45. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015* i wella sut rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae ein cynigion yn y gyllideb wedi parhau i edrych ar sut yr ydym yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio i helpu i sicrhau'r effaith fwyaf, a mabwysiadu dull integredig o ystyried effeithiau ar grwpiau gwarchodedig a chefnogi ffocws ar ein nodau cenedlaethol a rennir. Mae pedwar diben y cwricwlwm, fel y'u nodir yn Dyfodol Llwyddiannus, sy'n disgrifio'r canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob dysgwr yng Nghymru, yn cefnogi diben a rennir a dyfodol y Ddeddf ar gyfer llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol hirdymor Cymru. Rydym wedi sicrhau bod polisïau a rhaglenni eraill yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd, drwy ystyried y buddsoddiad y gallwn ei wneud yn awr i atal camau gweithredu drutach yn y dyfodol.

46. Rwy'n diddymu £22.2 miliwn o'r Grant Gwella Addysg dros y ddwy flynedd nesaf fel rhan o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid heb ei neilltuo i Lywodraeth Leol i gefnogi blaenoriaethau ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Bydd hyn yn cynnwys y gefnogaeth bresennol ar gyfer cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig yr Awdurdod Lleol a gwasanaethau cefnogi dysgwr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Rwyf wedi gwneud y penderfyniad hwn yn rhannol er mwyn mynd i'r afael â phryderon a godwyd gan y sector drwy ymchwiliad gwerthfawr y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Grant Gwella Addysg, er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Leol adnoddau uniongyrchol a hyblyg i ddarparu'r cymorth priodol i ysgolion. Drwy'r arian grant dros nifer o flynyddoedd rydym wedi profi'r egwyddorion a'r dull gweithredu. Wrth inni lansio Addysg yng Nghymru 2017-21 - Cenhadaeth ein Cenedl, rwy'n credu ei bod bellach yn bryd i Awdurdodau Lleol weithio gyda'u hysgolion, gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol, a gwasanaethau cymorth i leiafrifoedd ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr i fabwysiadu dull creiddiol o gefnogi'r rhain a phob dysgwr.

**Ardaloedd penodol**

47. Yn yr adran hon rhoddir diweddariad ar feysydd penodol y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor.

**Cyllid ar gyfer gwella ysgolion**

***Manylion am sut y bydd y buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn mewn safonau ysgolion y mae'r Prif Weinidog wedi ei addo dros oes y Cynulliad hwn yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn 2018-19.***

48. Rwyf wedi alinio'r BEL codi safonau £100 miliwn gyda'n cynllun gweithredu newydd, Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl a'n blaenoriaethau strategol a nodir yn y flaenoriaeth Uchelgeisiol ac yn Dysgu yn y strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb. Yn 2018-19, rwy'n dyrannu £25 miliwn i godi safonau a bydd mwy na hanner y swm hwn yn cael ei fuddsoddi mewn gwella addysgu a dysgu, gan gynnwys cefnogi datblygiad proffesiynol yng Nghymru, safonau addysgu proffesiynol, addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon, a chynnig dysgu proffesiynol mewn perthynas â chymhwysedd digidol.

49. Rwy'n buddsoddi dros £3 miliwn mewn gwella arweinyddiaeth mewn addysg, cefnogi datblygiad cronfa o arweinwyr yng Nghymru a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, a thros £4 miliwn i gefnogi system hunanwella, gyda £2.5 miliwn o hwnnw'n adeiladu ar gamau gweithredu eleni i gefnogi ysgolion bach a gwledig a'r heriau penodol y maent yn eu hwynebu. O fewn y gronfa hon mae mwy nag £1 miliwn ar gael i ehangu effaith a dyfnder cydweithio a chynyddu nifer yr ysgolion sydd wedi'u ffedereiddio.

***Bethyw proffil gwariant y £100 miliwn drwy'r Cynulliad hwn.***

50. Erbyn diwedd 2019-20, byddaf wedi buddsoddi £75 miliwn mewn Codi Safonau Ysgolion gyda £ 50.5 miliwn o hyn yn cael ei ddyrannu rhwng 2018-19 a 2019-20.

51. Yn ystod tymor llawn yr ymrwymiad, gan ganolbwyntio ar ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rwy'n disgwyl buddsoddi tua £55 miliwn mewn gwella addysgu a dysgu; £20 miliwn mewn cefnogi'r system hunanwella; mwy nag £13 miliwn mewn adeiladu capasiti arwain mewn addysg; mwy na £5 miliwn mewn cefnogi'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu gan gynnwys sgiliau codio a sgiliau digidol a datblygu cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr.

**Cynllun Gwella Addysg**

***Diweddariad ar y cynllun gwella addysg newydd disgwyliedig a fydd yn olynu Cymwys am Oes a sut mae darpariaeth gyllidebol i gefnogi'r gwaith o'i gyflawni yn cael ei hadlewyrchu yn y MEG Addysg.***

52. Ym mis Medi, lansiwyd y ddogfen Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl, ein cynllun gweithredu newydd ar gyfer addysg yng Nghymru ar gyfer 2017-21. Gan adeiladu ar Cymwys am Oes, mae'r cynllun gweithredu hwn yn

cyd-fynd â chefnogi'r gwaith o gyflawni'r nod Uchelgeisiol ac yn Dysgu, sy'n deillio o Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol (2017). Mae Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi sut y bydd y system ysgol yn symud ymlaen, drwy ddatblygu a gweithredu'r cwricwlwm newydd a chyda ffocws allweddol ar yr amcanion galluogi sy'n rhyngddibynnol o ran ei gyflawni: datblygu proffesiwn addysg o safon uchel; arweinwyr sy'n ysbrydoli ac sy'n cydweithio i godi safonau; ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i sicrhau rhagoriaeth, tegwch a lles; trefniadau asesu, gwerthuso ac atebolrwydd cadarn i ategu system hunanwella.

53. Yn syml, mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio ar godi safonau i bawb, gan leihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd. Mae'r Gyllideb ddrafft yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau ar gyfer addysg ac rydym wedi alinio'r MEG Addysg i gefnogi'r gwaith o gyflawni Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl.

**Lleihau effaith amddifadedd a thlodi**

***Sut mae'r MEG Addysg yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd a thlodi a dylanwad hynny ar gyflawniad addysgol.***

54. Byddwn yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael cyfle cyfartal i gyrraedd y safonau uchaf; mae hyn wedi'i nodi'n glir yn Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl. Dyna pam rwy'n parhau i flaenoriaethu ein buddsoddiad drwy'r Grant Datblygu Disgyblion yn 2018-19 a 2019-20.

55. Rhaid inni gydweithio i sicrhau bod y pethau sylfaenol yn iawn, gan godi ein safonau a'n huchelgais i sicrhau rhagoriaeth i bob disgybl, myfyriwr ac athro. Yn sail i'r holl waith hwn mae'r gred na ddylai gallu rhywun i elwa ar addysg gael ei bennu gan amgylchiadau personol ac ymgyrch i leihau anghydraddoldebau a dileu rhwystrau i addysg.

56. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg sy'n galluogi myfyrwyr o'r cartrefi â'r incwm isaf i barhau â'u hastudiaethau drwy addysg bellach. O 2018/19 ymlaen bydd gan fyfyrwyr mewn addysg uwch y pecyn costau byw tecaf yn y DU. Mae'n gwarantu cymorth i fyfyrwyr tra byddant yn astudio sy'n cyfateb i'r cyflog byw cenedlaethol ac yn darparu cymorth yn seiliedig ar brawf modd, nad oes angen ei ad-dalu, i'r myfyrwyr mwyaf anghenus. Bydd hyn yn rhoi mynediad i addysg uwch i bobl na fyddent wedi gallu ystyried mynd i'r brifysgol yn y gorffennol.

***Sut mae'r gwerthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion (a ddisgwylir yn ystod haf 2017) wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion.***

57. Mae tystiolaeth gan Ipsos MORI/WISERD, Estyn ac eiriolwr Codi Cyrhaeddiad Llywodraeth Cymru (Syr Alexander Macdonald) yn cefnogi'r farn bod mwyafrif

yr ysgolion yn gwneud penderfyniadau da a phenderfyniadau priodol ar sut i wario'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r ffordd y mae ysgolion yn gwario'r Grant Datblygu Disgyblion yn esblygu. Mae ysgolion a fuddsoddodd arian i ddechrau mewn systemau monitro data bellach yn canolbwyntio ar gyflwyno ymyriadau ac ar hyfforddi a chyflogi staff sy'n fedrus yn yr ymyriadau hyn.

***Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o fforddiadwyedd, gwerth am arian ac effaith y Grant Datblygu Disgyblion?***

58. Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o'r Grant Datblygu Disgyblion gan Ipsos MORI/WISERD. Bydd y trydydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir. Ymchwiliodd y gwerthusiadau i faterion yn ymwneud â gweithredu'r grant yn ogystal ag effaith y grant ac asesu gwerth am arian.

59. Amlygodd tystiolaeth o'r gwerthusiadau ei bod yn ymddangos bod y ffordd y mae'r Grant Datblygu Disgyblion wedi cael ei wario gan ysgolion wedi esblygu dros oes y grant. I ddechrau, buddsoddodd ysgolion mewn adnoddau a sefydlu systemau monitro data i olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r dull hwn wedi galluogi ysgolion i hyrwyddo cynnydd a chael gwared ar rwystrau i ddysgu drwy nodi anghenion dysgwyr, targedu ymyriadau a monitro effaith. Mae cronfeydd bellach yn canolbwyntio ar gyflwyno ymyriadau.

60. Rhoddodd y gwerthusiad enghreifftiau o ysgolion yn gwneud penderfyniadau gwario, ac yn newid y modd y mae ymyriadau'n gweithredu ar sail y data y maent wedi'u casglu er mwyn gwella effeithiolrwydd. Mae athrawon yn adrodd am welliannau sylweddol o ran y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nid yn unig o ran llythrennedd a rhifedd, ond hefyd o ran ymddygiad, hyder a hunan-barch, sy'n cael effaith uniongyrchol ar bresenoldeb a deilliannau.

***Manylion ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio at y dibenion a fwriadwyd.***

61. Mae angen i waith monitro fod yn gymesur ac ychwanegu gwerth bob amser. Disgwylir i'r ysgolion nodi yn y Cynlluniau Datblygu Ysgol eu gwariant arfaethedig o ran y Grant Datblygu Disgyblion ac mae consortia rhanbarthol yn sicrhau bod ysgolion yn monitro'r cynlluniau hyn. Mae consortia rhanbarthol yn cynnwys y blaenoriaethau allweddol yn eu cynlluniau busnes, y mae eu cydbwyllgorau'n craffu arnynt. Mae consortia rhanbarthol hefyd yn cael eu harchwilio.

62. Mae swyddogion yn cynnal cyfarfodydd monitro Grant Datblygu Disgyblion gyda chonsortia rhanbarthol bob chwarter, ac i gyd-fynd â hynny ceir cymorth wedi'i ddiweddaru. Yn ogystal, mae Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried y Grant Datblygu Disgyblion fel rhan o'u cylchoedd arolygu arferol.

***Gwybodaeth am unrhyw gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddiweddaru ei strategaeth Ailysgrifennu'r Dyfodol a'r ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi hynny.***

63. Oherwydd fy mod wedi diwygio'r trefniadau cyllido ar gyfer y grant ym mis Mawrth eleni, rwy'n awyddus i edrych ar yr holl ganllawiau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion, gan gynnwys y strategaeth Ailysgrifennu'r Dyfodol, cyn cyhoeddi unrhyw ganllawiau pellach.

**Her Ysgolion Cymru**

***Gwybodaeth am sut y mae'r £1.5 miliwn a ddyrannwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 yn cael ei wario.***

64. Dyranwyd yr £1.5 miliwn er mwyn cefnogi gwaith ychwanegol sydd wedi'i anelu at gyflymu gwelliannau mewn ysgolion. Gofynnwyd i gonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau gweithredu, gan ganolbwyntio ar ysgolion sy'n perfformio'n wael, neu ysgolion sy'n cael eu herio, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ysgolion uwchradd.

65. Wrth wneud hynny, gofynnwyd iddynt ymrwymo i set o egwyddorion arweiniol, i'w hymgorffori ochr yn ochr â phob un o'u modelau presennol ar gyfer darparu her a chymorth. Mae'r egwyddorion hyn yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd gan Her Ysgolion Cymru ac maent yn cynnwys:
- ffocws ar ddulliau cynaliadwy o wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu;
- sefydlu lle bo angen, Bwrdd Gwella Carlam effeithiol (neu ddull cyfatebol);
- yr angen i adolygu dull pob ysgol o ddefnyddio data a hunanarfarnu at ddibenion gwella;
- darparu cefnogaeth a her effeithiol gan Gynghorydd Her â chymwysterau addas a hanes profedig.

66. Fel rhan o system hunan-wella, rwy'n disgwyl gweld cydweithio rhwng ysgolion yn gael ei gynnwys yng nghynlluniau gwella pob ysgol.

67. Gofynnwyd i Gonsortia Rhanbarthol ymgorffori'r hyn a ddysgwyd o adroddiad gwerthuso terfynol Her Ysgolion Cymru yn eu dulliau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Mae pob set o gynigion yn canolbwyntio ar anghenion lleol ac yn cyd-fynd â modelau cymorth lleol.

***Diweddariad ar a yw'r rhaglen wedi dod i ben yn gyfan gwbl ac os oes unrhyw ddarpariaeth gyllidebol arall yn 2018-19.***

68. Mae'r rhaglen Her Ysgolion Cymru wedi dod i ben yn gyfan gwbl ac ni fydd rhagor o arian uniongyrchol ar gael ar gyfer y rhaglen yn 2018-19. Ein ffocws nawr yw cynnal a chyflymu'r gwelliannau a wnaed o dan y rhaglen ac ymgorffori'r hyn a ddysgwyd er budd pob ysgol yng Nghymru.

***Sut y mae gwerthusiad Her Ysgolion Cymru (a ddisgwyliwyd yn Haf 2017) a'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb yn y MEG Addysg?***

69. Bu dysgu o'r gwerthusiad yn broses barhaus ac mae wedi cynnwys dysgu anffurfiol drwy drafodaeth gyda Grwpiau o Gynghorwyr a Hyrwyddwyr Her Ysgolion Cymru, ysgolion Llwybrau Llwyddiant, a chonsortia rhanbarthol. Defnyddiwyd yr wybodaeth werthfawr hon i lywio ein dulliau gweithredu mewn perthynas â pholisi a dyraniadau'r gyllideb lle bo hynny'n briodol, ac yn sgil cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso terfynol yr haf hwn, byddwn yn parhau i ystyried ac ymgorffori'r hyn a ddysgwyd er budd pob ysgol yng Nghymru.

70. Mewn rhai ffyrdd, cadarnhaodd yr Her yr hyn yr oeddem eisoes yn ei wybod, bod arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, a her a chefnogaeth effeithiol oll yn hanfodol i gefnogi gwelliannau yn ein hysgolion. Hefyd, dylai ein hymdrechion fod yn seiliedig yn bennaf ar ddulliau cynaliadwy, yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o angen yn ogystal â'r hyn sy'n gweithio.

71. Mae'r elfennau hyn yn ganolog i Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl gydag arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol yn amcanion galluogi allweddol, a her a chefnogaeth effeithiol yn rhan o'n model gwella ysgolion. Mae ein cyllideb yn cyd-fynd â'r ddogfen Addysg yng Nghymru.

**Y gweithlu addysg**

***Manylion dyraniadau cyllideb i ariannu diwygiadau Llywodraeth Cymru ar Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon, dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu addysg, a'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer athrawon.***

72. Mae £160,000 ar gael yn y llinell wariant Polisi ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon ar gyfer 17-18, 18-19 a 19-20 i ariannu diwygiadau Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon Llywodraeth Cymru.

73. Bydd angen cyllid cychwynnol o £260,000 ar gyfer y Pwyllgor Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a bydd hyn yn cael ei dalu dros ddwy flwyddyn ariannol, sef £30,000 yn 2016-17 a £230,000 yn 2017-18. Telir y costau parhaus ar gyfer y broses achredu yn dilyn rownd gyntaf y ceisiadau drwy godi ffioedd sy'n daladwy gan y partneriaethau sy'n cymryd rhan yn y broses achredu. Bydd lefel y ffioedd yn destun ymgynghoriad ar wahân a gynhelir gan Gyngor Addysg y Gweithlu, a bydd system codi tâl yn ei lle erbyn 31 Awst 2018.

74. Yn ystod 2017-18, mae'r dyraniad cyllid ar gyfer Dysgu Proffesiynol gwerth £5.8 miliwn yn cynnwys costau rheoli rhaglenni, cyllid i gefnogi ysgolion arloesi ym maes dysgu proffesiynol o 2017-18 ymlaen a chyllid grant wedi'i ddyfarnu i gonsortia rhanbarthol i gefnogi dylunio a datblygu Dull Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol. Rydym wedi gosod cyllidebau sy’n ein galluogi i barhau â’n buddsoddiad drwy ysgolion arloesi ac ar gyfer gwaith craidd a chyflwyno’r cwricwlwm gan weithio gyda’n partneriaid.

75. Mae cyfanswm o £4.9 miliwn o ddyraniadau hefyd i ariannu Dysgu proffesiynol gan gynnwys Datblygiad Proffesiynol Cynnar, Cynefino a'r Rhaglen Gradd

Meistr mewn Addysg. Mae’r cyllid hwn wedi lleihau yn y gyllideb ddrafft hon ar gyfer y Rhaglen Gradd Meistr mewn Addysg wedi i’r contract ddod i ben yn naturiol. Mae dyraniad o fwy na £600,000 yn cefnogi'r broses o gyflwyno'r safonau proffesiynol.

***Gwybodaeth am unrhyw arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.***

76. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gweinyddu nifer o weithgareddau ar ran Llywodraeth Cymru lle y darperir arian drwy grant blynyddol i gefnogi'r gweithgareddau hyn. Mae'r grant sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer 2017-18 yn darparu hyd at £6.4 miliwn o arian o’r BEL Datblygu a Chymorth Athrawon (4880). Bydd y cyllid yn parhau ar y lefel hon yn 2018-19 a 2019-20. Ma’er cyllid hwn yn cefnogi gweithgareddau fel:
- Gweinyddu a hysbysu Statws Athro Cymwysedig;
- Gweinyddu'r Rhaglenni Cynefino, Datblygiad Proffesiynol Cynnar a Gradd Meistr mewn Ymarfer Addysgol;
- Gweinyddu, cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol; a
- Gweinyddu a hysbysu Achredu Addysg Gychwynnol i Athrawon.

77. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i Gyngor y Gweithlu Addysg i gefnogi ei swyddogaeth graidd (h.y. Cofrestru a Rheoleiddio).

***Darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth Addysgol Genedlaethol.***

78. Daw'r cyllid ar gyfer yr Academi o'r BEL Codi Safonau Ysgolion (5511). Dros dro, neilltuwyd cyllideb o £1 filiwn ym mhob blwyddyn ariannol o'r gyllideb hon ar gyfer yr arian craidd ar gyfer costau'r Academi gydag unrhyw warged i gefnogi'r ddarpariaeth.

**Cwricwlwm i Gymru**

***Diweddariad ar gyllid i gefnogi datblygu a dylunio'r cwricwlwm newydd a'i gyflwyno ym mis Medi 2018.***

79. Yn ddiweddar, cyhoeddais newid i'r amserlen ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd. Bydd y cwricwlwm bellach ar gael erbyn Ebrill 2019 er mwyn rhoi adborth arno, bydd fersiwn derfynol ar gael ym mis Ionawr 2020, a bydd yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru erbyn 2022.

80. Er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd a'i roi ar waith, a'i gyflwyno yn 2022, mae angen cyllid tan 2019-20. Rydym wedi dyrannu cyllid yn y gyllideb hon i gefnogi'r cwricwlwm newydd gyda chyfanswm amlen o £10 miliwn yn 2018-19 a 2019-20. Y prif bwrpas yw ariannu'r gwaith o ddylunio a datblygu trefniadau newydd i Gymru ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu fel y'u hargymhellir yn Dyfodol Llwyddiannus ac fel y nodir yn Cwricwlwm i Gymru - cwricwlwm am oes. Mae'r cyllid yn cynnwys cymorth i Ysgolion Arloesi ac arbenigedd cenedlaethol a rhyngwladol.

***Cyllid arfaethedig ar gyfer y cwricwlwm newydd yn y dyfodol, o ystyried ei fod yn rhaglen gweithredu polisi hirdymor.***

81. Rwyf wedi alinio'r gyllideb hon gydag Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl, ac wedi gwneud darpariaeth ar gyfer rhaglen diwygio'r cwricwlwm ac rwyf hefyd yn sefydlu Rhwydwaith o Ysgolion Arloesi cenedlaethol cryf o fewn y gyllideb ddrafft hon gyda dyraniad o £10m o’r BEL Adolygu’r Cwricwlwm (5167) a’r BEL Datblygu a Chefnogi Athrawon (4880).

**Meintiau dosbarthiadau babanod**

***Diweddariad ar y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod, gan gynnwys faint o ddosbarthiadau/ysgolion fydd yn elwa yn 2017-18 a 2018-19.***

82. Mae cyllid gwerth cyfanswm o £36 miliwn ar gael i awdurdodau lleol dros oes y Cynulliad hwn. Mae hyn yn cynnwys £16 miliwn o refeniw ac £20 miliwn o gyfalaf. Bydd cyfanswm o £7 miliwn ar gael ar gyfer 2017-18 (£2 filiwn o refeniw a £5 miliwn o gyfalaf ac £8 miliwn yn 2018-19 (£3 miliwn o refeniw a £5 miliwn o gyfalaf). Mae'r elfen refeniw yn cynnwys £1 filiwn o'r BEL Codi Safonau Ysgolion (5511) ac £1 filiwn o'r BEL Grant Gwella Ysgolion (5126). Bydd y cynnydd yn y cyllid refeniw yn 2018-19 yn dod o'r BEL Grant Gwella Ysgolion (5126). Bydd y cyllid cyfalaf yn cael ei dalu o'r BEL Buddsoddi Strategol (4765).

83. Mae'r arian yn cael ei ryddhau i awdurdodau lleol y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno achos busnes ar gyfer elfen refeniw'r cyllid a cheisiadau sy'n nodi cynigion ar gyfer unrhyw elfen gyfalaf o'r grant sy'n dangos sut y bydd yr arian yn bodloni'r meini prawf a'r canlyniadau a ddisgwylir. Ar ôl i'r asesiad gael ei gynnal, byddwn yn gwybod faint o ddosbarthiadau/ysgolion a fydd yn elwa o'r arian.

***Y broses ar gyfer dewis ysgolion i elwa o'r arian grant, yn seiliedig ar y meini prawf y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi eu hamlinellu.***

84. Bydd yr arian grant yn cael ei ystyried ar gyfer dosbarthiadau o 29 o blant neu fwy mewn ysgolion, lle mae o leiaf un o'r canlynol, neu gyfuniad ohonynt, yn berthnasol:

- Cyfran sylweddol o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- Deilliannau sy'n is na'r cyfartaledd a lle y bernir bod statws yr ysgol yn goch neu'n felyn;
- Cyfran sylweddol o blant ag anghenion addysgol arbennig/ychwanegol; a
- Cyfran sylweddol o blant lle nad Cymraeg/Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

85. Rhaid i achos busnes awdurdodau lleol gynnwys manylion y cymorth presennol ar gyfer yr ysgolion dan sylw a ffocws presennol y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg. Rhaid iddo gynnwys canlyniadau disgwyliedig mewn perthynas â gwelliannau mewn meintiau dosbarthiadau, niferoedd y disgyblion mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys 29 a mwy o ddisgyblion, gan gynnwys

disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim, y rhai ag anghenion ychwanegol, cymarebau athrawon/disgyblion, perfformiad, presenoldeb a chynlluniau i sicrhau cynaliadwyedd.

86. Rhaid i achosion busnes ystyried ystod eang o ddata, gan gynnwys capasiti ysgolion, cymarebau athrawon i ddisgyblion, presenoldeb, perfformiad gan gynnwys perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, graddau'r System Genedlaethol o Gategoreiddio Ysgolion, a nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

87. Caiff achosion busnes eu hasesu gan arweinwyr polisi allweddol a Phanel, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Banel Cyfalaf Rhaglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif a bydd yn amodol ar gymeradwyaeth derfynol gennyf.

***Beth yw disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran yr effaith ar ysgolion sy'n cael yr arian grant? A oes unrhyw dargedau wedi'u pennu? Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mesur gwerth am arian?***

88. Rhaid nodi targedau a chanlyniadau yn glir i fodloni dibenion y grant. Caiff y rhain eu hasesu gan y Panel a fydd yn herio'r targedau a'r canlyniadau i sicrhau eu bod yn ddigon cadarn. Yna bydd y rhain yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd dros gyfnod y grant.

89. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd gostyngiad yn nifer y dosbarthiadau â 29 a mwy o ddisgyblion yn yr ysgolion a dargedir. Yn ychwanegol at hynny, y disgwyliad yw y byddai'r cyllid yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim, y rhai ag anghenion ychwanegol neu'r rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf yn y dosbarthiadau a dargedir.

**Lleoedd gwag ac ysgolion bach/gwledig**

***Trefniadau ar gyfer y grant i ysgolion bach a gwledig ac o ba BEL y mae'n cael ei ariannu.***

90. Mae'r grant yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno eu cynlluniau ar gyfer gwariant yn unol â dibenion allweddol y grant sef:

- annog arloesi e.e. defnyddio technolegau newydd i fynd i'r afael â materion megis ynysu proffesiynol drwy ddefnyddio grym TG;
- cefnogi rhagor o gydweithio rhwng ysgolion gan gynnwys cyswllt anffurfiol, cydweithredu ffurfiol neu ffedereiddio er mwyn codi safonau;
- darparu cymorth gweinyddol ychwanegol mewn ysgolion lle mae gan y pennaeth amserlen addysgu drom;
- cynyddu defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion.

91. Bydd y polisïau'n cael eu dadansoddi gan swyddogion polisi perthnasol cyn imi eu cymeradwyo. Mae cyfanswm o £2.5 miliwn ar gael ar gyfer 2017-18 a 2018-19 ac fe'i ariennir o'r BEL Codi Safonau Ysgolion (5511).

***Sut y mae'r grant yn cael ei ddyrannu a'i werthuso o ran gwerth am arian.***

92. Dyrannwyd y grant ar sail fformiwla sy'n cael ei bwysoli ar sail 70% ar gyfer teneurwydd poblogaeth a 30% ar gyfer nifer yr ysgolion bach yn ardal yr awdurdod lleol.

93. Mae dyrannu'r grant yn amodol ar dderbyn cynlluniau awdurdodau lleol sy'n nodi cynigion ar gyfer ysgolion sy'n cyd-fynd â phrif ddibenion y grant a'r canlyniadau a ragwelir, a chymeradwyo'r cynlluniau hynny.

94. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy adroddiadau cynnydd a fydd yn cael eu dadansoddi gan swyddogion i sicrhau bod arian yn cael ei wario'n briodol ac yn unol â phrif ddibenion y grant.

95. Bydd adroddiadau grant blynyddol terfynol yn cael eu dadansoddi i sicrhau bod cynigion wedi'u cyflawni h.y. trefniadau gweithio anffurfiol ar waith rhwng ysgolion, nifer y rhaglenni cydweithredol, ffederasiynau a sefydlwyd, penodi rheolwyr busnes, adeiladau ysgol yn cael eu defnyddio at ddibenion cymunedol ac ati.

***Gwybodaeth am unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb sy'n gysylltiedig ag adolygiad o'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac unrhyw newidiadau polisi yn dilyn yr ymgynghoriad yr haf hwn.***

96. Nid oes unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb sy'n gysylltiedig ag adolygu'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Mae'n rhy gynnar i ddweud pa newidiadau polisi a allai ddeillio o'r ymgynghoriad a ddaeth i ben ar 30 Medi 2017. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad wrthi'n cael eu dadansoddi ar hyn o bryd a pharatowyd adroddiad cryno. Bydd y Cod drafft yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen er mwyn adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Y Grant Gwella Addysg**

***Gwybodaeth am ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer 2018-19 a chymhariaeth â blynyddoedd blaenorol.***

97. Mae'r Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion yn dod o fewn y BEL Grant Gwella Ysgolion a bwriedir ei leihau £2 filiwn yn 2018-19 a £2 filiwn arall yn 2019-20.

98. Bwriedir dileu £22.2 miliwn arall o'r grant dros ddwy flynedd a sicrhau ei fod ar gael i Awdurdodau Lleol fel cyllid heb ei neilltuo drwy Grant Cynnal Refeniw y Setliad Llywodraeth Leol i gefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer ysgolion.

99. Er gwaethaf y gostyngiad o £4 miliwn ac ailflaenoriaethu'r cyllid i'r Grant Cynnal Refeniw o ran ein blaenoriaethau ar gyfer ysgolion, mae'r Grant Gwella Addysg

yn parhau i ddarparu buddsoddiad sylweddol o fwy na £118 miliwn yn 2018-19 i gefnogi ein hysgolion, gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol er mwyn gwella deilliannau addysgol i bob dysgwr yng Nghymru.

***Sut y mae Llywodraeth Cymru wedi cryfhau'r trefniadau ar gyfer monitro effaith y Grant Gwella Addysg yn 2017-18 a beth yw'r trefniadau ar gyfer 2018-19.***

100. Yn dilyn ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion ac mewn ymateb i'n harchwiliad o'r trefniadau grant, adolygodd swyddogion y Fframwaith Perfformiad Addysg presennol a sefydlu fframwaith canlyniadau cryfach. Mae'r fframwaith canlyniadau ar waith ar gyfer 2017-18 ac mae'n cyd-fynd â Cymhwyster am Oes ac mae trefniadau'n cael eu gwneud i adlewyrchu ein cynllun gweithredu ar gyfer addysg, Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl ar gyfer 2018-19. Darperir y Grant Gwella Addysg i gonsortia rhanbarthol ac mae'n destun y trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt ac a amlinellir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

101. Mae consortia rhanbarthol yn cyhoeddi eu cynlluniau busnes lefel uchel sy'n cwmpasu eu cylch gwaith cyfan o ran gwella ysgolion ar eu gwefannau.

***Y dyraniadau arfaethedig ar gyfer pob consortiwm rhanbarthol a diweddariad ar y fframwaith canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i'w roi ar waith.***

102. Bydd y dyraniadau grant yn cael eu pennu maes o law a disgwyliaf i ddyraniadau dangosol gael eu rhannu gyda chonsortia rhanbarthol ym mis Tachwedd at ddibenion cynllunio. Bydd y dyraniadau'n cael eu cwblhau yn dilyn y Gyllideb Derfynol.

103. Ar gyfer 2018-19, rwy'n ystyried sut y gallwn fabwysiadu 'dull gweithredu ar sail system' sy'n fwy cydlynol er mwyn monitro'r gwaith o gyflawni Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl yn unol â'r egwyddorion a fabwysiadwyd gennym drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

***Manylion y defnydd o'r Grant Gwella Addysg i gefnogi mentrau Ysgolion Bro ac unrhyw ddarpariaeth arall yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion Bro.***

104. Ar lefel ysgol gall y Grant Gwella Addysg gefnogi camau gweithredu ymgysylltu â'r gymuned ac ysgolion sy'n gweithio mewn partneriaeth â'u cymunedau, er enghraifft prosiectau neu weithgareddau dysgu teuluol sy'n cefnogi canlyniadau addysgol gwell i ddysgwyr.

105. Er bod gwariant sy'n ymwneud â phrosiectau ysgolion bro yn dal yn gymwys o dan y grant lle mae'n cefnogi canlyniadau gwell i ddysgwyr, nid yw'r grant yn parhau â'r ffocws penodol a strategol a oedd yn y Grant Ysgolion Bro blaenorol.

***Gwybodaeth am y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gonsortia ac awdurdodau lleol ar ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg, gan gynnwys mewn perthynas â dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.***

106. Mae Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl yn nodi sut y bydd y system ysgol yn symud ymlaen dros y cyfnod, gan weithredu'r cwricwlwm newydd a chanolbwyntio ar arweinyddiaeth, dysgu proffesiynol a rhagoriaeth a chydraddoldeb mewn system hunanwella. Mae'r cynllun gweithredu'n adeilad ar gynllun Cymwys am Oes 2014 ac Adolygiad 2015 o'r Cwricwlwm ac mae'n canolbwyntio ar godi safonau i bawb, gan leihau'r bwlch cyrhaeddiad a darparu system addysg sy'n destun balchder cenedlaethol ac sy'n ennyn hyder y cyhoedd.

107. Wrth roi'r cynllun Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl ar waith, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi a herio awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol o ran y camau y maent yn eu cymryd yn uniongyrchol a thrwy gefnogaeth i ysgolion, er mwyn gwella deilliannau addysgol i bob dysgwr. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a chonsortia rhanbarthol er mwyn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu a bod y cymorth yn rhan annatod o'r broses, yn hytrach na rhywbeth ychwanegol.

108. Mae'r penderfyniad i gynnwys y cymorth presennol ar gyfer gwasanaethau awdurdodau lleol i gefnogi dysgwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth flaenoriaethu cyllid i Lywodraeth Leol yn adlewyrchu fy mwriadau cadarn y dylai'r dysgwyr hyn gael eu cefnogi drwy ddull gweithredu craidd. Ar ôl degawd o dargedu arian i brofi egwyddorion a darpariaeth a chyda mwy o ffocws ar gydraddoldeb a lles yn y cynllun Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein Cenedl, mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r cyfle i fabwysiadu dull cynaliadwy o gefnogi'r dysgwyr hyn.

**Consortia rhanbarthol**

***Manylion am faint o arian Llywodraeth Cymru sy'n cael ei sianelu drwy'r consortia rhanbarthol, gan gynnwys dadansoddiad (lle bo modd) o'r gwahanol ffrydiau ariannu.***

109. Yn 2017-18 rydym wedi ymrwymo i ddarparu hyd at £250 miliwn drwy gonsortia rhanbarthol gyda'r mwyafrif helaeth o'r arian hwnnw wedi'i dargedu tuag at ysgolion. Mae hyn yn cynnwys mwy na £91 miliwn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, £133 miliwn drwy'r Grant Gwella Addysg, mwy na £7 miliwn i gefnogi dysgu proffesiynol a'r cwricwlwm, a £10 miliwn drwy'r Grant Codi Safonau Ysgolion.

110. Wrth gysoni'r gyllideb â'r cynllun Addysg yng Nghymru - Cenhadaeth ein Cenedl, bydd y cyllid a ddarperir i gonsortia rhanbarthol yn 2018-19 a thu hwnt yn cyd-fynd â'r amcanion galluogi o fewn ein cynllun gweithredu drwy dermau ac amodau ein grant.

***Gwybodaeth am faint o'r arian a roddir i'r consortia'n sy'n cael ei gadw'n ganolog gan y consortia a faint sy'n cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol ac ysgolion.***

111. Yn unol â'r Model Cenedlaethol, mae pob awdurdod lleol yn cyfrannu at y trefniadau gwella ysgolion rhanbarthol. Mae'r mwyafrif helaeth o'r arian grant gan Lywodraeth Cymru i gonsortia rhanbarthol yn cael ei drosglwyddo i ysgolion, gan gynnwys isafswm o 80% o'r Grant Gwella Addysg i Ysgolion, y Grant Datblygu Disgyblion cyfan heblaw yr elfen Plant sy'n Derbyn Gofal a'r rhan fwyaf o'r cyllid sy'n cefnogi datblygu'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol drwy ein hysgolion arloesol.

***Unrhyw asesiadau a wnaed o effaith a gwerth am arian y consortia.***

112. Mae ein trefniadau gweithio rhanbarthol fel yr amlinellir yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn cynrychioli 22 o Awdurdodau Addysg Lleol sy'n cydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol i ddarparu ein cymorth gwella ysgolion yn rhanbarthol, a gweithio tuag at wella'r broses o rannu arferion gorau, cydweithio, cynllunio ar y cyd, gwell perfformiad a chynnig mwy cyson.

113. Yn unol â'r trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt yn y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, mae gan bob rhanbarth Gyd-bwyllgor neu Fwrdd Cwmni, yn amodol ar brosesau craffu, archwilio ac adolygu lleol a rhanbarthol drwy gylch gwaith Estyn. Mae mwy i'w wneud o hyd, fel sy'n briodol, ac mae Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru yn parhau i roi eu barn arbenigol i ni ar y trefniadau i lywio gwelliannau yn y dyfodol, gan gynnwys gwerth am arian.

**Estyn**

***Y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Estyn ac esboniad o ble yng nghyllideb Llywodraeth Cymru y mae hyn yn cael ei ariannu.***

114. Cyfanswm y dyraniad ar gyfer Estyn yn 2018-19 yw £11.334 miliwn sy'n cynnwys £11.053 miliwn o refeniw £0.281 miliwn o gyfalaf. Yn 2019-20, cyfanswm y dyraniad yw £10.737 miliwn sy'n cynnwys £10.456 miliwn o refeniw a £0.281 miliwn o gyfalaf. Mae'r gyllideb hon yn dod o fewn y MEG Llywodraeth Leol.

***Goblygiadau ariannol costau adolygiad yr Athro Donaldson o effaith diwygiadau addysg Llywodraeth Cymru ar Estyn ac o ble y bydd y rhain yn cael eu talu.***

115. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gost yr adolygiad annibynnol o Estyn. Rhagwelir na fydd cyfanswm cost yr adolygiad yn fwy na £100,000 a bydd cyfraniad Llywodraeth Cymru yn cael ei dalu o'r BEL Adolygu'r Cwricwlwm (5167).

**Cyllidebau ysgolion a chronfeydd wrth gefn**

***Gwybodaeth am unrhyw asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ddigonolrwydd cyllidebau ysgolion.***

116. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad ffurfiol o gyllidebau ysgolion. Cyfrifoldeb Awdurdodau Lleol yng Nghymru yw cyllid ysgolion, fel y nodir yn y gyfraith. Yn ôl yr ystadegau a ryddhawyd ym mis Gorffennaf eleni ar Wariant a Gyllidebwyd gan Awdurdodau Lleol ar Ysgolion ar gyfer 2017-18, bu cynnydd o 1% mewn gwariant gros ysgolion; cynyddodd y cyllid a ddirprwywyd i ysgolion i £2.142 biliwn a gwelwyd gostyngiad bach o 0.1 pwynt canran i 84.2% yn gyffredinol yn lefel y dirprwyo fel canran o gyfanswm y gwariant gros a gyllidebwyd.

***Diweddariad ar lefel y cronfeydd ysgol wrth gefn, gan gynnwys nifer yr ysgolion sydd uwchlaw'r trothwyon ariannol a nodir yn Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, lle y gall awdurdodau lleol roi cyfarwyddyd i ysgolion i wario neu adennill arian dros ben (gan gynnwys dadansoddiad fesul awdurdod lleol).***

117. Cyhoeddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar 19 Hydref o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017 ac mae fy swyddogion yn ystyied y data. Mae'r prif bennawd yn dangos bod lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a gedwir gan ysgolion yng Nghymru wedi gostwng i £46 miliwn, sy'n gyfwerth â £102 fesul disgybl. Fel gyda'r flwyddyn flaenorol, roedd y cronfeydd wrth gefn mewn ysgolion cynradd yn cyfrif am fwyafrif y cyfanswm. Gostyngodd lefel y cronfeydd wrth gefn fel canran o wariant ysgolion dirprwyedig o 3.0% i 2.1%. O blith 1,588 o ysgolion yng Nghymru, roedd gan 284 gronfa wrth gefn negyddol o £21 miliwn. Roedd gan y 1,304 o ysgolion sy'n weddill gronfeydd wrth gefn positif, 152 ohonynt â chronfeydd wrth gefn a oedd yn fwy na 10% o'u gwariant dirprwyedig.

118. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 er mwyn cryfhau'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol drwy alluogi ysgolion i gael eu herio mewn perthynas â chyllidebau dros ben ar drothwy canrannol ac ariannol.

**Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau**

***Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a niferoedd y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yma.***

119. Ein targed cyffredinol ar gyfer y Rhaglen Band A (2014-2019) yw adnewyddu neu ailadeiladu 150 o ysgolion a cholegau dros oes y Rhaglen. Hyd yma, cymeradwywyd 151 o Achosion Cyfiawnhad Busnes / Achosion Busnes Llawn, sy'n cynrychioli 101% o darged cyffredinol y Rhaglen. Mae 83 o Gynlluniau Ysgolion yr 21ain Ganrif a Chynlluniau Addysg Bellach wedi'u cwblhau hyd yma, sef 55% o darged y Rhaglen. Ar hyn o bryd, mae gwaith ar y gweill hefyd ar 45 o brosiectau, sy’n cynrychioli 30%o darged y Rhaglen.

120. Hyd at 2016-17, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid o £451.6 miliwn. Mae Band A o Raglen Addysg ac Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau dros y cyfnod pum mlynedd o 2014-2019. Bwriedir dechrau ar Raglen Band B yn 2019. Mae datblygu'r rhaglen Band B ar y gweill, yn sgil derbyn y Rhaglenni Amlinellol Strategol gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach.

121. Mae dyraniad o £100.8 miliwn yn 2017-18, £168.1 miliwn yn 2018-19, £176.1 miliwn yn 2019-20 a £153.9 miliwn yn 2020-21.

***Eglurhad o'r amserlenni ar gyfer Band A a Band B y rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r trefniadau pontio rhwng y ddau gam.***

122. Rhagwelir y bydd cyfnod pontio wrth i Brosiectau Band A ddod i ben a phrosiectau Band B ddechrau. Rydym yn bwriadu dechrau datblygu gwaith ar rai prosiectau Band B cyn 2019, er mwyn sicrhau bod cyllidebau'n cael eu defnyddio'n llawn ar ddechrau a diwedd y bandiau buddsoddi olynol.

**Y cynnig gofal plant**

***Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r goblygiadau i'r MEG Addysg yn sgil cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru.***

123. O fewn y BEL Buddsoddiad Strategol (4765), mae arian cyfalaf o £60 miliwn wedi'i ddyrannu i'r cynnig gofal plant, dros gyfnod o dair blynedd o 2018-19. Rwy'n gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wrth iddo ddatblygu'r cynigion gofal plant ac rwyf wedi gofyn i awdurdodau lleol ac eraill nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer gweithio cydgysylltiedig yn eu Rhaglenni Amlinellol Strategol ar gyfer Band B.

**Cymwysterau**

***Dyraniadau i Gymwysterau Cymru a diweddariad ar waith y gangen nawdd o fewn Llywodraeth Cymru, gan gynnwys darpariaeth y gyllideb.***

124. Y dyraniad blynyddol dangosol ar gyfer Cymhwyster Cymru yw £8 miliwn yn 2018-19 a 2019-20. Mae dyraniadau grant blynyddol i Gymwysterau Cymru yn unol â'r rhai a nodir yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Deddf Cymwysterau Cymru. Y Gangen Noddi yw'r prif bwynt cyswllt o fewn Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymwysterau Cymru ac mae'n sicrhau bod y sefydliad yn ymwybodol o holl bolisïau perthnasol Llywodraeth Cymru. Y gangen yw'r brif ffynhonnell gyngor i Weinidogion Cymru ar gyflawni eu dyletswyddau o ran Cymwysterau Cymru. Mae'r Gangen Noddi yn cysylltu'n rheolaidd â Chymwysterau Cymru i adolygu perfformiad ariannol y sefydliad yn erbyn y gyllideb. Mae'r Gangen yn monitro priodoldeb gweithgareddau Cymwysterau Cymru drwy arsylwi cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

***Pa asesiad a wnaed o effaith y gostyngiad o 4% yng nghyllideb Cymwysterau Cymru yn 2017-18 a sut mae hyn wedi dylanwadu ar ddyraniadau yn 2018-19.***

125. Er bod Cymwysterau Cymru yn cael eu hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru, roedd gostyngiad o 4% yn eu cyllideb yn 2017-18. Er mwyn ymdopi â hyn, gweithiodd Cymwysterau Cymru gyda'r Gangen Nawdd i ymchwilio i wahanol ffyrdd o leihau gwariant yn ogystal â diogelu eu gallu craidd a mwyafrif y cymorth grant a ddarperir ar gyfer asesiadau cyfrwng Cymraeg. Gwnaeth Cymwysterau Cymru arbedion mewn nifer o feysydd gan gynnwys lleihau ei gyllideb ymchwil un rhan o dair a lleihau costau TG. Mae dyraniadau dangosol ar gyfer 2018-19 a 2019-20 yn unol â'r dyraniad a ddarparwyd yn 2017-18.

**Addysg cyfrwng Cymraeg**

***Darpariaeth gyllidebol i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.***

126. Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sail ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Yn hollbwysig mae hyn hefyd yn cynnwys addysg ddwyieithog ac addysg Gymraeg. Nid oes cyllideb benodol o fewn y BEL Y Cymraeg mewn Addysg i gefnogi eu datblygiad gan ei fod yn ofyniad statudol i'r awdurdodau lleol.

127. Mae awdurdodau lleol yn defnyddio cyllid o nifer o ffynonellau i weithredu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan gynnwys gweithgareddau a gefnogir ac a gyflwynir drwy'r Rhaglen Gyfalaf Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Grant Gwella Addysg a rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm. Wrth gyflwyno eu Cynlluniau Gwella Addysg, gofynnir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a ariennir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdodau lleol. Yn hollbwysig, mae'r rhaglen Diwygio'r Cwricwlwm yn cefnogi datblygiad y cwricwlwm newydd, a fydd yn cynnwys un continwwm dysgu Cymraeg, sy'n ymrwymiad allweddol yn strategaeth y Gymraeg.

128. Mae'r BEL y Cymraeg mewn Addysg hefyd yn cefnogi'r Cynlluniau Strategol drwy raglenni i gefnogi'r defnydd anffurfiol o'r iaith, datblygu sgiliau ieithyddol ymarferwyr drwy'r Cynllun Sabothol, a chomisiynu adnoddau dysgu ac addysgu.

***Goblygiadau i'r MEG Addysg yn sgil Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar y Gymraeg a'i tharged o gyrraedd un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a'r ddarpariaeth yn y gyllideb i gefnogi hynny.***

129. Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr' ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n cynnwys ymrwymiad trawslywodraethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

130. Mae gan y system addysg rôl allweddol i'w chwarae o ran cyrraedd y nod, a bydd angen nifer o newidiadau sylweddol er mwyn cyrraedd y targedau.

131. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg, mewn partneriaethau ag Is-adran y Gymraeg, yn arwain ar roi gweithgareddau a chamau gweithredu ar waith mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysgol a nodwyd yn y strategaeth. Bydd y MEG Addysg yn parhau i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg a bydd BEL y Gymraeg mewn Addysg yn ategu hynny, sy'n ariannu ymyriadau penodol nad ydynt yn rhan o weithgareddau MEG Addysg prif ffrwd.

***O ba BEL y daw'r £4.2 miliwn a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2017 i gynyddu capasiti cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysgu.***

132. Daw'r cyllid ychwanegol ar gyfer gweithgaredd dysgu proffesiynol ac ymchwil i gefnogi addysgu a dysgu'r Gymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg o'r BEL Codi Safonau Ysgolion (5511).

**Anghenion dysgu ychwanegol**

***Goblygiadau ariannol Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)***

133. Darparwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar gyfer y Bil ar 8 Medi. Mae'r diwygiad yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed mewn ymateb i'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod y gwaith craffu ar Gyfnod 1 y Bil.

***Darpariaeth gyllidebol i gefnogi'r Rhaglen Trawsnewid ADY.***

134. Yn unol ag ail argymhelliad y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad ar gyfnod 1 y Bil, bydd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid yn yr hydref i roi rhagor o wybodaeth am y Rhaglen Trawsnewid ADY gwerth £20 miliwn. Bydd copi o'r llythyr yn cael ei anfon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

***Diweddariad ar amserlen ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd a sut y caiff hyn ei adlewyrchu yn y ddarpariaeth gyllidebol.***

135. Bydd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn gwneud datganiad yn fuan ar ddull arfaethedig ac amseriad y cyfnod pontio.  Bydd y datganiad yn cyd-fynd â chyhoeddi'r crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar sut y dylid gweithredu'r Bil os caiff Gydsyniad Brenhinol ar 9 Mehefin.

***Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer ariannu hyfforddiant seicolegwyr addysg yng Nghymru ac ar y gwaith i nodi model cynaliadwy yn y tymor hir.***

136. Mae Prifysgol Caerdydd yn derbyn grant i hyfforddi 10 Seicolegydd Addysg y flwyddyn a dechreuodd carfan 2017/18 ym mis Medi. Defnyddir gwybodaeth o

ymarfer casglu data Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddar i lywio cynllunio yn y dyfodol.


**Addysg bellach**

***Manylion dyraniadau 2018-19 i sefydliadau addysg bellach (SAB) a dadansoddiad o'r ddarpariaeth yn y gyllideb dros y pum mlynedd diwethaf.***

137. Nid yw'r gwaith yn dechrau ar y dyraniad i SAB tan ar ôl i gyllideb 2018-19 gael ei chymeradwyo, gan fod y sefydliadau hynny yn cael eu hariannu ar sail blwyddyn academaidd.

138. Yn sgil mesurau cyni parhau gan Lywodraeth Cymru  Bu gostyngiad o £23.665 miliwn yng nghyllid rheolaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector rhwng 2013/14 a 2017/18, sef gostyngiad o 7.63 y cant yn nhermau arian parod dros y cyfnod hwn.

139. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y dyraniadau ar gyfer sefydliadau AB ers 2013/14.




140. Ar gyfer 2016/17 a 2017/18, mae'r cyllid ar gyfer y sector AB wedi aros yn gymharol sefydlog.  Fodd bynnag, mae hyn yn dilyn gostyngiadau sylweddol yng nghyllid y sector yn ystod y blynyddoedd blaenorol, ac mae'r rhan fwyaf o'r rheini wedi effeithio ar ddarpariaeth ran-amser i oedolion.  Ers 2013/14, mae'r cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser wedi gostwng bron 70 y cant mewn termau real, gan adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu ei chyllid er mwyn cefnogi ysgolion a phobl ifanc.

141. O fewn y dyraniadau ar gyfer sefydliadau AB, rydym wedi diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Mae'r dyraniadau ar gyfer 2016/17

a 2017/18 hefyd yn cynnwys dyraniadau untro o £796,000 i adlewyrchu'r twf mewn darpariaeth lefel 3 ar gyfer dysgwyr 16-19 oed.

142. Rydym hefyd wedi ymdrechu i amddiffyn y dysgwyr hynny sydd fwyaf agored i niwed drwy ddiogelu'r gyllideb ar gyfer Addysg Sylfaenol i Oedolion a'r gyllideb Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill. Rydym hefyd wedi diogelu darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr a chanddynt anawsterau dysgu cymedrol neu ddwys.

143. Yn dilyn y gostyngiad, mae Llywodraeth Cymru a'r Sector AB wedi gweithio'n agos ar brosiect 'atebion creadigol', sy'n cael ei gefnogi gan £1.8 miliwn o arian Llywodraeth Cymru, i nodi a threialu ffyrdd newydd o ddysgu effeithiol ac effeithlon sydd o fudd i'r dysgwr gan gynnwys rhaglenni dysgu cyflym a chyflwyno rhaglenni sy'n cynnwys mwy o brofiad o ddysgu yn y gweithle.

***Sut mae darpariaeth ran-amser a dysgu oedolion wedi'i hystyried fel rhan o ddyraniadau'r gyllideb.***

144. Mae'r BEL Darpariaeth Addysg Bellach a ddyrannwyd i SAB, darpariaeth Chweched Dosbarth a darparwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn cael ei ddyrannu yn unol â rhwymedigaethau statudol.

145. Mae Adran 31 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn gwahaniaethu rhwng ein rhwymedigaethau statudol i ddysgwyr 16-18 oed a'r rhai i bobl sydd dros 18 oed pan fyddant yn mynd i addysg, gyda darpariaeth a chyfleusterau 'priodol' i bobl ifanc 16-18 oed a darpariaeth a chyfleusterau 'rhesymol' i bobl dros 18 oed.

146. Gyda hyn mewn cof, darpariaeth ran amser a dysgu oedolion sydd wedi dioddef y gostyngiad mwyaf sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

***Asesiad o effaith y dyraniadau i gyllidebau SAB dros y pum mlynedd diwethaf ar ddarpariaeth a niferoedd y dysgwyr.***

147. Cynhelir asesiadau effaith cyn cytuno ar bob dyraniad. Mae'r gostyngiadau mewn dysgu rhan-amser wedi cael yr effaith fwyaf ar fenywod a dysgwyr hŷn (fel y disgwyliwyd yn yr asesiadau gwreiddiol). Mae ystadegau Llywodraeth Cymru yn ategu hyn.

148. Nid yw'r wybodaeth sydd gennym ar arolygiadau ESTYN a'r deilliannau i ddysgwyr yn nodi bod y gostyngiad mewn meysydd eraill wedi effeithio ar y ddarpariaeth sy'n weddill mewn colegau, ond byddai angen gwerthusiad llawn i gefnogi hyn.

***Esboniad manwl o sut y caiff yr arian a gynhwysir yn y BEL Addysg Bellach ei ddyrannu a'i wario.***

149. Wrth ddyrannu’r arian, prif flaenoriaeth y BEL yw cwmpasu'r ymrwymiadau sydd eisoes wedi'u gwneud ar gyfer y dyfodol. Y prif ymrwymiad ar gyfer y

dyfodol yw elfen Ebrill i Orffennaf y dyraniad AB ar gyfer y flwyddyn academaidd.

150. Ail flaenoriaeth y BEL yw dyraniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer addysg chweched dosbarth. Proses dau gam yw'r dyraniadau awdurdodau lleol sy'n defnyddio newid demograffig a phatrymau dysgu cyfartalog yn sail i'r cyllid.

151. Trydedd blaenoriaeth y BEL yw ar gyfer dyraniadau AB. Fel arfer, dyraniad gwaelodlin yw hwn sy'n cymryd dyraniad y flwyddyn flaenorol ac yn ei gynyddu/ostwng yn unol ag anghenion dysgwyr llawn amser, gyda'r gweddill ar gael ar gyfer dysgu rhan amser.

152. Ar ôl i'r arian gael ei ddyrannu, gofynnir i awdurdodau lleol gynllunio eu darpariaeth ac ystyried sut y maent yn lleihau dyblygu, cynyddu cydweithio a sicrhau bod deilliannau dysgwyr yn greiddiol i unrhyw benderfyniadau. Rhennir y cynlluniau hyn gyda Llywodraeth Cymru sy'n craffu arnynt ac yn cwrdd ag Awdurdodau Lleol os bydd unrhyw broblemau. Nid oes unrhyw drefniadau adennill ar ddiwedd y flwyddyn. Pe bai demograffeg neu ddarpariaeth yn amrywio o'r data a ddefnyddir i seilio'r dyraniadau arnynt, bydd y data newydd hyn yn cael eu defnyddio'n sail i ddyraniadau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

153. Gofynnir i SAB gynllunio eu darpariaeth ac ystyried sut y maent yn lleihau dyblygu, cynyddu cydweithio a sicrhau bod deilliannau dysgwyr yn greiddiol i unrhyw benderfyniadau. Gofynnir hefyd i SAB ystyried yr wybodaeth a gynhwysir yn y Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr lleol ac felly'n gwella Economi Cymru.

154. Mae Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cyflwyno cynlluniau cyflawni blynyddol i ddangos sut y byddant yn diwallu anghenion lleol a chadw at y polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned.

**Addysg uwch**

***Y ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer CCAUC i'w dyrannu i'r sector addysg uwch ac asesiad diwygiedig o incwm y prifysgolion.***

155. Darpariaeth arfaethedig o gyllideb CCAUC ar gyfer y blynyddoedd i ddod, 2017-18 i 2019-20

| Y Gyllideb Atodol Gyntaf 2017-18 £'000 | Cyllideb ddrafft 2018-19 ar gyfer Cynlluniau Newydd £'000 | Cyllideb ddrafft 2019-20 ar gyfer Cynlluniau Newydd £'000 |
|---|---|---|
| 104,386 | 108,519 | 124,760 |
| *Mae'r ffigurau uchod yn cynnwys £0.090 miliwn ar gyfer Cyfalaf CCAUC (dibrisiant). | | |

**Cyllid SAU Cymru yn ôl categori a blwyddyn academaidd, 2011/12 i 2015/16**

| | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **£mil** |
| **Cyfanswm yr incwm** | **1,274,144** | **1,274,426** | **1,378,792** | **1,441,909** | **1,514,422** |
| Grantiau'r Cyngor Cyllido | 395,058 | 268,500 | 249,073 | 186,893 | 183,687 |
| Ffioedd dysgu a grantiau a chontractau addysg | 432,178 | 559,823 | 652,986 | 743,763 | 798,388 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 169,943 | 175,151 | 191,789 | 212,398 | 204,609 |
| Incwm arall | 269,705 | 262,387 | 276,600 | 287,372 | 311,997 |
| Gwaddol ac incwm buddsoddi | 8,455 | 8,565 | 8,344 | 11,483 | 15,741 |
| **Cyfanswm y gwariant (£)** | **1,244,261** | **1,257,464** | **1,333,632** | **1,462,387** | **1,448,638** |
| Costau staff | 723,834 | 733,412 | 778,994 | 849,386 | 832,426 |
| Costau gweithredu eraill | 446,622 | 449,355 | 474,917 | 508,925 | 482,750 |
| Dibrisiad | 60,734 | 62,839 | 68,895 | 75,849 | 95,641 |
| Llog sy'n daladwy | 13,071 | 11,858 | 10,826 | 28,227 | 37,821 |

Ffynhonnell: Cofnod Cyllid HESA (https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Higher-Education/Staff-and-Finance/financeofheis-by-category-year)

***Cyllid ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a sut mae canfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb.***

156. Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i adolygu gweithgareddau a rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn y dyfodol ar 25 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion ynglŷn â gweithgarwch y Coleg yn y dyfodol gan ganolbwyntio ar sicrhau bod cyllidebau a gweithgareddau yn y dyfodol yn cael eu targedu at feysydd a fydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac at annog rhagor o fyfyrwyr i barhau â'u hastudiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

157. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod angen cefnogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn AU os am gynnal yr enillion cyfredol a datblygu'r ddarpariaeth ymhellach yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn argymell bod rôl y Coleg yn cael ei hymestyn i gynnwys y sectorau ôl-16 (AB a Dysgu Seiliedig ar Waith), mae'n argymell nad oes angen unrhyw gyllideb ychwanegol a bod gan y Coleg rywfaint o gapasiti o fewn y strwythurau presennol i wneud cynnydd cychwynnol o fewn y meysydd hyn. Cyhoeddir

ymateb llawn i'r adroddiad maes o law a bydd cytundebau cyllido'r dyfodol gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymateb yn unol â hynny.

***Effaith Brexit ar y sector addysg uwch, gan gynnwys mynediad i gyllid ymchwil a nifer y myfyrwyr sy'n dod o'r UE***

158. Nifer y myfyrwyr sy'n dod o'r UE

**Myfyrwyr yr UE mewn SAU yng Nghymru yn ôl lefel a dull astudio, 2015/16**

| | Aberystwyth | Bangor | Caerdydd | Met Caerdydd | Glyndŵr | Abertawe | Y Drindod | Prifysgol De Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Israddedig llawn amser** | | | | | | | | |
| Yn hanu o'r UE | 500 | 275 | 795 | 240 | 215 | 375 | 125 | 980 |
| Pob domisil | 6,400 | 7,600 | 18,615 | 8,590 | 3,155 | 12,910 | 6,040 | 14,940 |
| *Canran* | *8%* | *4%* | *4%* | *3%* | *7%* | *3%* | *2%* | *7%* |
| **Israddedig rhan-amser** | | | | | | | | |
| Yn hanu o'r UE | 105 | 5 | 25 | * | 295 | 5 | 15 | 15 |
| Pob domisil | 1,287 | 638 | 3,290 | 627 | 2,852 | 1,769 | 2,382 | 5,902 |
| *Canran* | *8%* | *0%* | *1%* | *0%* | *10%* | *0%* | *1%* | *0%* |
| **Ôl-raddedig llawn amser** | | | | | | | | |
| Yn hanu o'r UE | 65 | 80 | 370 | 100 | 30 | 175 | 10 | 240 |
| Pob domisil | 590 | 1,405 | 4,745 | 2,325 | 175 | 1,920 | 650 | 1,735 |
| *Canran* | 11% | 6% | 8% | 4% | 16% | 9% | 11% | 14% |
| **Ôl-raddedig rhan-amser** | | | | | | | | |
| Yn hanu o'r UE | 5 | 60 | 150 | 35 | 5 | 35 | 35 | 95 |
| Pob domisil | 475 | 980 | 4,030 | 1,035 | 475 | 850 | 855 | 2,695 |
| *Canran* | 1% | 6% | 4% | 3% | 1% | 4 % | 4% | 4% |

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA, 2015/16

Mae niferoedd y myfyrwyr wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf; Mae * yn dangos ffigur sy'n fwy na sero a llai na thri.

Cyfran y staff academaidd o wledydd yr UE

159. Mae 3-4% o staff Prifysgolion Metropolitan Caerdydd, Glyndŵr, y Drindod Dewi Sant a De Cymru 3-4% yn hanu o'r UE;

160. Mae 12-13% o staff prifysgolion Aberystwyth, Bangor, Caerdydd ac Abertawe yn hanu o'r UE.

**Diwygio Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol**

***Effaith ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Hazelkorn a'r ymgynghoriad ynghylch addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar ddyraniadau cyllideb yn 2018-19 a 2019-20.***

161. Gallaf gadarnhau nad oes goblygiadau uniongyrchol i'r gyllideb yn deillio o ddiwygiadau addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar hyn o bryd. Bydd costau cychwynnol cynnal ymgynghoriad yn cael eu talu o'r adnoddau presennol.

**Cymorth i Fyfyrwyr**

***Dadansoddiad ar gyfer 2015-16, 2016-17 a 2017-18 (wedi'i ragamcanu lle y bo'n bosibl) o BEL Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, gan gynnwys faint a wariwyd ar y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, y Grant Dysgu Addysg Bellach, y Grant Dysgu Addysg Uwch a'r Grant Ffioedd Dysgu***

**BEL 4704 Gwariant a chyllideb**

| **Math o grant** | **Gwariant yn 2015-16 £m** | **Gwariant yn 2016-17 £m** | **Y gyllideb yn 2017-18 £m** |
|---|---|---|---|
| Grantiau a Ffioedd Rhan Amser | 9.2 | 8.1 | 10 |
| Grantiau wedi'u Targedu | 17.2 | 17.4 | 21 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru AU | 137.8 | 135.8 | 135.6 |
| Grant Dysgu Llywodraeth Cymru AB | 6.6 | 5.9 | 6.6 |
| Grant Ffioedd Dysgu | 243.5 | 261.8 | 276.9 |
| Lwfans Cynhaliaeth Addysg | 21.9 | 19.7 | 19.5 |

***Effaith y trefniadau cyllido myfyrwyr newydd ym mis Medi 2017 a Medi 2018 ar ddarpariaeth y gyllideb yn 2018-19 a 2019-20***

162. Bydd y diwygiadau'n arwain at arbedion o ran adnoddau yn y dyfodol, a fydd yn cael eu cyflwyno fesul tipyn dros sawl blwyddyn. Bydd cynilion yn cynyddu wrth i'r grant ffioedd dysgu gael ei gyflwyno'n raddol dros gyfnod o 5 mlynedd, gan ryddhau refeniw i greu system gynaliadwy o gyllid AU dros y tymor hwy. Bydd hyn yn arwain at drosglwyddiadau o'r BEL Grant Cymorth i Fyfyrwyr i CCAUC (i ariannu blaenoriaethau AU eraill) a Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (i ariannu'r gwaith o weithredu'r diwygiadau), yn unol â chytundeb Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gyda'r Prif Weinidog. Bydd hyn yn adlewyrchu'r ymrwymiadau a wnaed ym mhapur y Cabinet a oedd yn amlinellu ymateb Llywodraeth y Cynulliad i Adolygiad Diamond er mwyn sicrhau bod gan CCAUC linell sylfaen gynaliadwy a bod y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gallu gweinyddu'r system ddiwygiedig o gymorth i fyfyrwyr.

***Y model diweddaraf o gostau'r Grant Ffioedd Dysgu, gan gynnwys:***

- ***Y swm mewn grantiau ffioedd dysgu a dalwyd mewn perthynas â myfyrwyr sy'n mynychu sefydliadau yng Nghymru a sefydliadau y tu allan i Gymru yn y drefn honno yn y blynyddoedd blaenorol.***

**Gwariant grant ffioedd dysgu yn ôl lleoliad astudio**

| | Gwariant fesul blwyddyn ariannol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2012-13 £m** | **2013-14 £m** | **2014-15 £m** | **2015-16 £m** | **2016-17 £m** |
| **Grant Ffioedd Dysgu** | **48.1** | **129.3** | **194.2** | **244.4** | **261.9** |
| Myfyrwyr o Gymru mewn SAU eraill yn y DU | 16 | 45 | 72 | 93 | 99 |
| Myfyrwyr o Gymru | 30 | 78 | 112 | 138 | 147 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| mewn SAU yng Nghymru | | | | | |
| Myfyrwyr yr UE mewn SAU yng Nghymru | 2 | 7 | 10 | 13 | 16 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

- ***Gwybodaeth wedi'i diweddaru ar lif myfyrwyr rhwng Cymru a gweddill y DU.***

**Llif trawsffiniol myfyrwyr israddedig amser-llawn blwyddyn-gyntaf fesul lefel - 2014/15**

| | **Lleoliad y sefydliad** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Domisil** | Cymru | Lloegr | Yr Alban | G Iwerddon | Cyfanswm y DU |
| Cyfanswm y DU | 23,755 | 352,525 | 37,270 | 10,305 | 423,855 |
| Cymru | 13,000 | 7,750 | 115 | 5 | 20,870 |
| Lloegr | 10,535 | 340,060 | 4,500 | 815 | 355,905 |
| Yr Alban | 70 | 1,525 | 31,710 | 10 | 33,320 |
| G Iwerddon | 155 | 3,165 | 945 | 9,470 | 13,735 |
| DU anhysbys | | 20 | | | 25 |

**Llif trawsffiniol myfyrwyr amser llawn fesul lefel - 2015/16**

| | **Lleoliad y sefydliad** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Domisil** | Cymru | Lloegr | Yr Alban | G Iwerddon | Cyfanswm y DU |
| Cyfanswm y DU | 23,770 | 363,550 | 37,390 | 8,920 | 433,630 |
| Cymru | 13,205 | 7,950 | 120 | 10 | 21,290 |
| Lloegr | 10,355 | 350,360 | 4,610 | 380 | 365,700 |
| Yr Alban | 50 | 1,620 | 31,650 | 25 | 33,335 |
| G Iwerddon | 160 | 3,600 | 1,015 | 8,505 | 13,280 |
| DU anhysbys | | 20 | | | 20 |

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA (https://statswales.gov.wales/v/CSUp)

- ***Amcangyfrif o gostau grantiau ffioedd dysgu ar gyfer 2018-19 a thu hwnt.***

**Gwariant fesul blwyddyn ariannol**

| | **2016-17 £m** | **2017-18 £m** | **2018-19 £m** | **2019-20 £m** | **2020-21 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Grant Ffioedd Dysgu | 261.9 | 272.2 | 223.0 | 129.9 | 55.8 |

Ffynhonnell: Dadansoddiad mewnol Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru

**Gwaith ieuenctid**

***Gwybodaeth am y ddarpariaeth yn y gyllideb o fewn y MEG Addysg i gefnogi Gwaith Ieuenctid***

163. Yn 2018-19 a 2019-20, mae £3.5 miliwn wedi'i ddyrannu bob blwyddyn yn y gyllideb ddrafft i gefnogi Gwaith Ieuenctid yn uniongyrchol. Mae'r arian hwn wedi'i nodi o fewn y BEL Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid.

164. Er bod yn rhaid i benderfyniadau yn y dyfodol ar y defnydd strategol o gyllid gael eu llywio dros amser gan ganlyniad gwaith Margaret Jervis ar Ymestyn Hawliau, a'r cyngor strategol a ragwelir drwy Fwrdd Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cenedlaethol, mae'r manylion canlynol yn adlewyrchu'r cyllid blynyddol fel y'i nodwyd ar hyn o bryd.

165. Mae £2.5 miliwn wedi'i nodi i gefnogi gwaith ieuenctid drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid (cyfuno'r hen Grant Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r Grant Cymorth Strategaeth Gwaith Ieuenctid). Dyrennir yr arian hwn yn uniongyrchol i awdurdodau lleol ac mae'r swm sydd ar gael yn adlewyrchu gostyngiad o 10% o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

166. Nodir £180,000 ar gyfer gweithgareddau amrywiol sydd wedi'u hanelu at gydnabod, hyrwyddo a dathlu ymarfer eithriadol mewn gwaith ieuenctid a gweithwyr ieuenctid ledled Cymru. Mae hyn, fodd bynnag, yn cynnwys Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid, Wythnos Gwaith Ieuenctid, cynadleddau Gwaith Ieuenctid blynyddol, a'r Marc Ansawdd Gwaith Ieuenctid.

167. Nodir £796,000 i gefnogi mudiadau gwaith ieuenctid gwirfoddol ledled Cymru, gan gynnwys drwy'r Cynllun Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, ac i sicrhau ansawdd rhaglenni hyfforddi proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid yng Nghymru.

168. Yn olaf, ac yn ychwanegol at y ffigurau a ddyfynnir uchod, nodir £994,000 drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid i gefnogi cyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, gyda'r nod o leihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET. Fel rhan o'r arian grant hwnnw, gall awdurdodau lleol ddefnyddio peth ohono i gefnogi Gwaith Ieuenctid, o bosibl yn erbyn elfen gweithiwr arweiniol y fframwaith. Fodd bynnag, byddai swm y grant a ddyrennir i hyn yn ddibynnol ar ddisgresiwn awdurdodau lleol ac yn dibynnu ar eu blaenoriaethau. Mae'r swm sydd ar gael yn cynrychioli gostyngiad o 10% ar y blynyddoedd blaenorol.

***Diweddariad ar yr adolygiad o grantiau gwaith ieuenctid, yn ychwanegol at Grant Cynnal Refeniw llywodraeth leol, gan gynnwys Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol ac unrhyw benderfyniadau a wnaed ynglŷn â darpariaeth yn y dyfodol.***

169. Cynhaliwyd yr adolygiadau canlynol a chyflwynwyd adroddiadau ar y canfyddiadau cychwynnol i Lywodraeth Cymru yn ystod haf 2017:
   - Grant Cymorth y Strategaeth Gwaith Ieuenctid

- Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
- Grant Blynyddol Llywodraeth Cymru i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cymru
- Grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol

170. Bydd yr adroddiadau hyn cael eu cyhoeddi yr hydref hwn, lle y bo'n briodol, a byddant yn llywio sut rydym yn parhau i gryfhau ein dulliau o gefnogi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n hanfodol bod unrhyw benderfyniadau yn cael eu llywio gan ganlyniad gwaith Margaret Jervis ar Ymestyn Hawliau ac, yn ddiweddarach, gan y cyngor strategol a ragwelir drwy Fwrdd y Gwasanaethau Cymorth Cenedlaethol i Ieuenctid. Rwy'n rhagweld y bydd adroddiad cychwynnol Margaret i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn cael ei gyflwyno erbyn mis Tachwedd eleni fan bellaf ac y bydd y Bwrdd yn ei le erbyn Gwanwyn 2018.

171. O ran y grant Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, gallaf gadarnhau bod cyllid ar gyfer dwy flynedd arall wedi'i gytuno mewn egwyddor ac mae'r broses ymgeisio ar y gweill gyda cheisiadau gan sefydliadau gwirfoddol ledled Cymru yn cael eu hystyried ym mis Tachwedd 2017.

**Crynodeb**

172. Cyflwynir Cyllideb Ddrafft y MEG Addysg ar gyfer 2018-19 i'r Pwyllgor ei hystyried.

**Kirsty Williams AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**

# ATODIAD A

## Crynodeb ar lefel Gweithredoedd

- Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir isod grynodeb o'r newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn ôl y Gweithredoedd sy'n berthnasol i'r Pwyllgor hwn. Yn unol â manylion paragraff 3, mae'r crynodeb yn adlewyrchu newidiadau o'r gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2018-19 er mwyn gallu eu cymharu mewn ffordd ystyrlon.

***Gweithred Llythrennedd a Rhifedd***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 4,456 | 3,000 | 7,456 | -900 | 6,556 |

- Mae'r gyllideb yn ariannu ystod o ymyraethau i gefnogi agenda gwella sgiliau llythrennedd a rhifedd plant a phobl ifanc. Mae'r cyllid ar gyfer y Weithred hon yn cefnogi'n benodol y gweithredoedd sydd wedi'u rhestru yn y Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol; serch hynny mae llythrennedd a rhifedd wedi bwrw gwreiddiau ar draws maes polisïau addysg. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi datblygu a darparu'r Profion Darllen a Rhifedd.

- Mae'r cymorth a gynigir ar gyfer llythrennedd a rhifedd eisoes yn cael ei ddarparu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon gan y consortia drwy'r Grant Gwella Addysg. Mae llythrennedd a rhifedd yn flaenoriaethau sy'n dod o fewn cylch gwaith y grant hwnnw. Mae hyn yn ychwanegu'n sylweddol at gyfanswm y cymorth a gynigir ar gyfer y sgiliau hyn mewn ysgolion.

- Mae ffigur diwygiedig y gwaelodlin ar gyfer 2018-19 yn cynnwys dileu'r £2.5 miliwn ar gyfer Buddsoddi i Arbed a ddyfarnwyd yng Nghyllideb Derfynol 2017-18.

- Mae'r gyllideb ar gyfer y weithred Llythrennedd a Rhifedd wedi cynyddu £3.0 miliwn yn 2018-19 o'i chymharu â'r gwaelodlin diwygiedig. Mae hyn oherwydd bod arian wedi'i drosglwyddo i mewn o MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu i gyllid Buddsoddi i Arbed er mwyn talu am y profion ar-lein. Bydd y cyllid hwn yn gostwng £900,000 yn 2019-20 i £2.1 miliwn. Bydd cyfanswm buddsoddiad o £11.5 miliwn o Fuddsoddi i Arbed rhwng 2016-17 a 2019-20. Bydd ad-daliadau'n dilyn wedyn am 5 mlynedd arall o 2020-21 ymlaen tan 2024-25.

***Gweithred Cwricwlwm***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 15,701 | -2,184 | 13,517 | -284 | 13,233 |

- Mae'r weithred hon yn cynnwys y BEL Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi yn unig, mae'r cyllid cyflawni yn awr wedi'i gynnwys yn y Grant Gwella Addysg o fewn y Weithred Safonau Addysg), y BEL Cwricwlwm ac Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm. Mae'r gyllideb £2.184 miliwn yn is na'r gwaelodlin.

- Gostyngiadau i'r cyllidebau a ganlyn sy'n gyfrifol am y newid:

  - trosglwyddo £0.030 miliwn allan o'r BEL Cwricwlwm ac Asesu i MEG Cymunedau a Phlant i dalu am ddatblygu gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant;

  - trosglwyddo £1.432 miliwn i'r BEL Grant Gwella Ysgolion er mwyn gallu talu am gymorth ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern a TGAU drwy'r Grant Gwella Addysg;

  - trosglwyddo £0.048 miliwn allan i'r cronfeydd canolog wrth gefn fel rhan o'r ymarfer rhesymoli grantiau - mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 10% yn y grant ar gyfer Ieithoedd Tramor Modern.

  - dyrannu £1.0 miliwn i gefnogi Blaenoriaethau Cerddoriaeth fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ynglŷn â'r gyllideb;

  - gostyngiadau o £1.0 miliwn yn y rhaglen gymorth ar gyfer TGAU yn 2018-19 a £1.0 miliwn arall yn 2019-20 pan ddaw'r rhaglen i ben. Mae'r Rhaglen Gymorth ar gyfer TGAU wedi golygu bod modd darparu cymorth o 2014 ymlaen ac, erbyn 2020, bydd y ddarpariaeth gymorth ar gyfer yr ystod o gymwysterau TGAU newydd wedi bwrw gwreiddiau;

  - llwyddir i sicrhau gostyngiad o £0.008m yn y gyllideb Asesu drwy beidio ag estyn y secondiad i ymarferwyr AAY;

  - gostyngiad o £0.320 miliwn yng nghyllideb Techniquest a £0.220 miliwn arall yn 2019-20 fel y cytunwyd mewn blynyddoedd blaenorol.

  - gostyngiad o £0.046 miliwn yn Rhaglen Addysg y Rhyfel Byd Cyntaf a £0.054 miliwn arall yn 2019-20 oherwydd bod y rhaglen waith yn dod i ben; a

  - gostyngiad o £0.300 miliwn yn y BEL Cyfnod Sylfaen yn dilyn trosglwyddo cyllid sy'n berthnasol i'r Mudiad Meithrin i'r BEL Cymraeg mewn Addysg.

***Gweithred Addysgu ac Arweinyddiaeth***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu | Cynlluniau Newydd Cyllideb | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu | Cynlluniau Newydd Cyllideb |
|---|---|---|---|---|

|  |  | Ddrafft 2018-19 |  | Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|---|---|
| £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| 19,731 | -927 | 18,804 | -140 | 18,664 |

- Mae'r weithred hon yn cynnwys y cyllid ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus addysgwyr proffesiynol. Rydym yn cychwyn ar raglen newid fawr yn ein system addysg ac mae Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn rhan hanfodol o hyn. Gwyddom fod gwendidau yn y system bresennol ac mae'n adeg allweddol yn awr inni ystyried yr holl agweddau ar recriwtio, cadw a datblygu athrawon. Mae'n bwysig ystyried sut y byddwn yn datblygu cynnig unigryw i bobl sy'n dechrau ar eu gyrfa addysgu yng Nghymru. Mae angen ystyried y rhaglen hyfforddi athrawon i israddedigion, ôl-raddedigion a graddedigion, ynghyd â'r cymhellion sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn inni nid yn unig ddenu athrawon o safon uchel ond hefyd eu cadw a'u datblygu.

- Bydd y gyllideb yn gostwng £0.927 miliwn yn 2018-19 a £0.140 miliwn arall yn 2019-20. Gostyngiadau yn y cyllidebau a ganlyn sy'n gyfrifol am y newid:

  - cyllid ychwanegol o £1.75 miliwn i ddileu'r addasiad i'r gwaelodlin a chadw'r cynllun cymhellion cyfredol. Mae adolygiad brys wedi'i gynnal gan argymell y dylid datblygu pecyn cymhellion newydd a allai gostio mwy na'r gofyniad cyfredol, sef £3.360 miliwn, os bydd pob lle'n cael ei lenwi;

  - cyllid ychwanegol o £0.250 miliwn i gynyddu capasiti'r RhAG;

  - trosglwyddo £0.232 miliwn allan i'r cronfeydd Canolog wrth gefn yn 2018-19 a 2019-20 fel rhan o'r ymarfer rhesymoli grantiau, mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 10% yn y grant Ysgolion Arloesi a'r grant Cymorth Mentora a Rhwydweithio i Benaethiaid. Mae gweddill y Grant Cymorth Mentora a Rhwydweithio i Benaethiaid wedi'i drosglwyddo i'r BEL Grant Gwella Ysgolion er mwyn iddo gael ei weinyddu drwy'r Grant Gwella Addysg;

  - gostyngiad o £0.030 miliwn ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Cynnar o 2018-19 ymlaen;

  - gostyngiad o £1.5 miliwn yn rhaglen y Radd Meistr a £0.2 miliwn arall yn 2019-20. Mae'r arbedion hyn wedi'u cynnig am fod y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol yn dirwyn i ben, er y bydd gan fyfyrwyr, oherwydd rheoliadau'r Prifysgolion, hyd at bum mlynedd i gwblhau eu hastudiaethau; a

  - gostyngiad o £1.075 miliwn ar gyfer Ysgolion Arloesi yn sgil y ffaith bod gwaith yr OECD yn dirwyn i ben yn naturiol mewn Ysgolion Hunanwella a hefyd bod Digwyddiadau Arloesi Cenedlaethol yn digwydd ar raddfa lai a'r costau cysylltiedig felly'n is.

***Gweithred Cymwysterau***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 8,142 | - | 8,142 | - | 8,142 |

- Mae'r weithred hon yn talu am Gymwysterau Cymru a sefydlwyd ym mis Medi 2015. Pwrpas y rhan fwyaf o'r arian grant ar gyfer Cymwysterau Cymru yw cefnogi eu costau cynnal (dros 70%) ac mae'r gweddill ar gyfer y gwaith ymchwil a datblygu y mae'r corff yn ei wneud yn sail i'w waith fel rheoleiddiwr. Nid oes dim newidiadau wedi bod i'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19 na 2019-20

***Gweithred Addysg Ôl-16***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 401,881 | 4,565 | 406,446 | -9,827 | 396,619 |

- Mae'r weithred hon yn cynnwys cyllid ar gyfer dysgu'r chweched dosbarth yn ysgolion yr awdurdodau lleol, lleoliadau Dysgu yn y Gymuned i Oedolion, a Sefydliadau Addysg Bellach. Mae swm bach o'r adnoddau'n cael ei ddefnyddio i gefnogi cynlluniau newydd a gweithgareddau gwella ansawdd, yn ogystal â chyllid i gefnogi darparu rhwydweithiau Seren sy'n helpu'r dysgwyr mwyaf abl a thalentog i gamu ymlaen i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton.

- Mae'r gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2018-19 yn cynnwys dileu'r dyraniad o £5.005 miliwn ar gyfer un flwyddyn i Addysg Bellach, a ddyfarnwyd yng Nghyllideb Derfynol 2017-18, fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ynghylch y gyllideb.

- Mae'r gyllideb ar gyfer y weithred Llythrennedd a Rhifedd wedi cynyddu £4.565 miliwn yn 2018-19 o'i chymharu â'r gwaelodlin diwygiedig. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Ailsefydlu'r £5.005 miliwn y cyfeiriwyd ato uchod o’r ailflaenoriaethau o fewn y MEG Addysg, i gyfrannu at y cyflogau a'r pwysau cysylltiedig a wynebir gan y sector.

- Trosglwyddo allan o'r weithred hon i'r cronfeydd canolog wrth gefn (£0.440 miliwn), fel rhan o'r ymarfer rhesymoli grantiau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 10% ar gyfer Dysgu yn y Gymuned i Oedolion (£0.430 miliwn) a Rhwydwaith Seren (£0.010 miliwn).

- Bydd gostyngiad pellach o £9.827 miliwn yn y Weithred hon yn 2019-20. Fel rhan o ymarfer rhesymoli grantiau llywodraeth leol, rydym wedi pennu gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion. Byddwn yn cydweithio'n agos â'r sector i sicrhau bod unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn effeithio cyn lleied â phosibl ar y dewisiadau a gynigir, ar ansawdd y ddarpariaeth ac ar y deilliannau i ddysgwyr.

***Gweithred Addysg Uwch***

| **Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000** | **Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000** | **Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000** | **Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000** |
|---|---|---|---|---|
| 79,391 | 29,128 | 108,519 | 16,241 | 124,760 |

- Mae'r gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2018-19 yn cynnwys dileu'r dyraniad o £24,995 miliwn ar gyfer un flwyddyn i CCAUC, a ddyfarnwyd yng Nghyllideb Derfynol 2017-18, fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ynghylch y gyllideb.

  - Mae'r gyllideb ar gyfer Weithred Addysg Uwch wedi cynyddu £29.128 miliwn yn 2018-19 o'i chymharu â'r gwaelodlin diwygiedig. Mae hyn yn cynnwys y trosglwyddiadau canlynol:

  - trosglwyddiad i mewn o £9.152 miliwn yn y Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16 a £6.547 miliwn o'r tu mewn i'r MEG. Mae'r dyraniadau ychwanegol hyn yn adlewyrchu dechrau symud cronfeydd o'r grant ffioedd dysgu i AU a dechrau gweithredu Cam II o ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond.

  - Fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ynghylch y gyllideb, dyrannwyd £20 miliwn ar gyfer Addysg Uwch ac Addysg Bellach a fydd yn caniatáu i'r sectorau baratoi ar gyfer gweithredu ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond. Yn unol â chanfyddiadau adolygiad Diamond, bydd yr arian hwn yn annog cydweithredu mwy agos rhwng y sectorau i baratoi ar gyfer diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant ôl-orfodol (PCET).

- Gostyngiad o £6.241 miliwn yn 2018-19. Ailddyrannu adnoddau yw hyn a fydd yn cael ei osod yn erbyn y cynnydd yn 2017-18 (a noddir o fewn MEG Addysg). Bydd cynyddu'r adnoddau fel hyn yn 2017-18 yn help i'r sector wneud iawn am oblygiadau tymor byr newid demograffig yn nifer y bobl 18 oed a pharatoi ar gyfer effaith Brexit.

- Trosglwyddiad ailadroddus o £0.330 miliwn i'r Weithred y Gymraeg mewn Addysg i gefnogi'r cynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn golygu bod y gyllideb ar gyfer y Weithred hon yn cynyddu £16,241 miliwn yn 19-20 o'i chymharu â'r hyn sydd yng nghynlluniau drafft 18-19.

- Mae'r gyllideb o fewn BEL cyfalaf CCAUC (Dibrisiant), sef £0.090 miliwn wedi'i gynnal ar lefelau 2017-18.

- Mae polisi Llywodraeth Cymru ar addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr wedi cael ei lunio i sicrhau bod mynediad i addysg uwch yn seiliedig ar allu ac nid ar fforddiadwywedd. Caiff y cymorth ei dargdu tuag at y rhai mwyaf anghenus gyda'r rhai o gatrefi â'r incwm isaf yn cael y lefel uchaf o grantiau nad oes rhaid eu had-dalu.

***Gweithred Safonau Addysg***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 156,800 | -8,911 | 147,889 | -10,593 | 137,296 |

- Y Grant Gwella Addysg fydd y rhan fwyaf o'r Weithred hon o hyd, a dyma'r prif gyllid grant sydd ar gael i ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia i sicrhau bod ysgolion yn gwella'u perfformiad. Bydd y grant yn parhau i gynnig hyblygrwydd i gonsortia, awdurdodau lleol ac ysgolion i dargedu'r arian at y mannau lle mae ei angen fwyaf. Serch hynny, bydd swyddogion yn dal i weithio gyda chonsortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol i symleiddio'r trefniadau eto, gan leihau costau gweinyddol a rheoli.

- Mae'r gyllideb wedi gostwng £8,911 miliwn yn 2018-19 a £10.593 miliwn arall yn 2019-20. Canlyniad trosglwyddiad i'r cronfeydd canolog wrth gefn yw'r gostyngiad hwn yn bennaf, fel rhan o'r ymarfer rhesymoli grantiau. Mae hyn cynnwys gostyngiad o £13.145 miliwn yn y Grant Gwella Addysg yn 2018-19 a £9.093 miliwn arall yn 2019-20. Mae £0.700m wedi'i ddileu hefyd ar gyfer y Grant Gwisgoedd Ysgol;

- Mae £1.522 miliwn hefyd wedi'i drosglwyddo i'r BEL Grant Gwella Ysgolion i dalu am y grant Ieithoedd Tramor Modern, y grant cymorth ar gyfer TGAU a'r Cymorth Mentora a Rhwydweithio i Benaethiaid er mwyn gallu eu gweinyddu'r drwy'r Grant Gwella Addysg;

- Mae dyraniadau ychwanegol wedi bod i'r BEL Codi Safonau Ysgolion, sef £5.0 miliwn yn 2018-19 a £0.5 miliwn arall yn 2019-20 wrth inni symud i fuddsoddi £100 miliwn dros Dymor y Cynulliad hwn; ac

- Gwelwyd gostyngiad o £0.388 miliwn ar gyfer y Gwasanaeth Ymchwilio Annibynnol a grantiau Llywodraethwyr Cymru.

***Gweithred Grant Datblygu Disgyblion***

| Gwaelodlin Diwygiedig | Newidiadau i'r Gyllideb ac | Cynlluniau Newydd | Newidiadau i'r Gyllideb ac | Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|---|

| 2018-19<br><br><br><br>£000 | Ailflaenoriaethu<br><br><br><br>£000 | Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Ailflaenoriaethu<br><br><br><br>£000 | Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 93,746 | - | 93,746 | - | 93,746 |

- Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn gyfle pwysig i ysgolion ddarparu cymorth wedi'i dargedu i leihau'r diffyg cydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol. Nid oes dim newidiadau wedi bod i'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 na 2019-20

***Gweithred TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 6,659 | -50 | 6,609 | - | 6,609 |

- Mae'r Weithred hon yn helpu i ddarparu'r cwricwlwm drwy gynnig mynediad at ystod o becynnau ac adnoddau addysgu digidol o ansawdd, gan gynnwys Hwb, drwy gyfrwng y rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol (LiDW) a JISC (rhwydwaith ar gyfer addysg ôl-16 a rennir drwy'r DU); prosiect Rhifau Dysgwr Unigryw a systemau rheoli data mewnol.

- Fel rhan o'r ymarfer rhesymoli grantiau, trosglwyddir £50,000 i'r Cronfeydd Canolog Wrth Gefn yn 2018-19 - mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 10% yn y grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol.

***Gweithred Lles Plant a Phobl Ifanc***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 18,997 | - | 18,997 | - | 18,997 |

- Mae'r rhan fwyaf o'r weithred hon yn talu am leoliadau mewn colegau preswyl arbenigol i fyfyrwyr ôl-16 sydd ag anawsterau dysgu difrifol. Cyllid statudol yw hwn sy'n cael ei dywys gan y galw yn unol â dyletswyddau Gweinidogion Cymru o dan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau. Nid oes dim newidiadau wedi bod i'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 na 2019-20 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer AB arbenigol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc anabl hynny nad oes modd diwallu eu hanghenion yn eu coleg lleol yn gallu manteisio ar addysg bellach a hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion.

- Rydym wedi parhau i amddiffyn y cyllid ar gyfer y Cynllun Llaeth i Ysgolion yn y cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2 drwy ddarparu cymhorthdal.

***Gweithred Cymorth i Ddysgwyr Ôl-16.***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 589,816 | -2,628 | 587,188 | -24,016 | 563,172 |

- Mae'r gyllideb ar gyfer y BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr (BEL Grant Dysgu Llywodraeth Cymru gynt) wedi'i chynnwys o fewn y Weithred hon. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon y rhaglen statudol sy'n cael ei thywys gan y galw, sef y rhaglen cymorth i fyfyrwyr ar gyfer AU ac AB. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-Amser, Grantiau wedi'u Targedu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr, y Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg.

- Mae'r gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2018-19 yn cynnwys dileu £0.800 miliwn a drosglwyddwyd i mewn o MEG Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i gefnogi gweithgarwch Bwrsariaeth y GIG, a drosglwyddwyd yng nghyllideb atodol gyntaf 2017-18.

- Gwelwyd gostyngiad o £2.628 miliwn yn y gwaelodlin i £587.188 miliwn yn 18-19. Mae nifer o elfennau sy'n cyfrannu at y gostyngiad net.

  - Trosglwyddo £0.476 miliwn i'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu ar gyfer ad-daliadau buddsoddi i arbed er mwyn gwella'r system Benthyciadau i Fyfyrwyr.

  - Trosglwyddo £9.152 miliwn allan i'r Weithred Addysg Uwch i helpu i weithredu Diamond;

  - £2 filiwn ychwanegol (o'r MEG Addysg) i sicrhau bod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gallu cyflawni'r gofynion ychwanegol i weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond.

- Bydd gostyngiad pellach o £24.016 miliwn yn y WeithredCymorth i Ddysgwyr ôl-16 yn 19-20 o'i gymharu â chynlluniau drafft 2018-19, ac mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r canlynol:

- Gostyngiad o £24.016 miliwn yn y BEL Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr i adlewyrchu blwyddyn 2 o weithredu ymateb Llywodraeth Cymru i Diamond ac addasiad pellach i adlewyrchu'r effaith a amcangyfrifir yn sgil tueddiadau demograffig sy'n dangos gostyngiad yn nifer y rhai 18 oed yng Nghymru.

- Rydym wedi cynnal ein hymrwymiad i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dod o'r aelwydydd isaf eu hincwm yn 2018-19 ac yn 19-20 drwy gynnal lefel gyffredinol y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr.

***Gweithred Ennyn Diddordeb Disgyblion***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 600 | -85 | 515 | - | 515 |

- Mae'r Weithred hon yn talu am weithgareddau a anelir at brosiectau bach a gwella deilliannau i ddysgwyr agored i niwed/di-fraint drwy wella'u lles, a'u hymddygiad a'u presenoldeb mewn ysgolion; ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau; lleihau nifer y gwaharddiadau; gwella ansawdd y ddarpariaeth i addysgu dysgwyr mewn mannau heblaw am yn yr ysgol.

- Mae gostyngiad o £85,000 yn y gyllideb ar gyfer 2018-19 i ryddhau'r cyllid a glustnodwyd gynt i dalu am y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol. Mae hyn o ganlyniad i gyllid o £500,000 yn cael ei ddyrannu i'r BEL Bwyd a Maeth mewn Ysgolion yn y weithred Lles Plant a Phobl Ifanc fel rhan o Gyllideb Derfynol 2017-18 ac mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y gwaelodlin ar gyfer blynyddoedd ariannol 2018-19 a 2019-20

***Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 8,539 | -385 | 8,154 | - | 8,154 |

- Mae'r Weithred hon yn cyllido nifer o grantiau i gefnogi gwasanaethau ieuenctid statudol a gwirfoddol yng Nghymru a darparu gweithgareddau i helpu i leihau'r nifer nad ydynt mewn Addysg, Gwaith na Hyfforddiant drwy roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygiad Ieuenctid ar waith. Yn ogystal â hyn, mae'r Weithred hefyd yn darparu cyllid ar gyfer Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i helpu i ddarparu dysgu a sgiliau i garcharorion mewn carchardai i oedolion. Mae cyllid ar gael hefyd ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r agenda dysgu i droseddwyr, ac yn helpu i ddarparu sgiliau hanfodol i'r rheini sy'n bwrw dedfrydau yn y gymuned.

- Fel rhan o'r ymarfer rhesymoli grantiau, trosglwyddir £0.385 miliwn i'r Cronfeydd Canolog wrth gefn, mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 10% i'r Grant Cefnogi Ieuenctid.

***Gweithred y Gymraeg mewn Addysg***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 |
|---|---|---|---|---|
| 24,231 | 7,130 | 31,361 | - | 31,361 |

- Mae’r Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi ymyriadau penodol i gynyddu a gwella addysg cyfrwng Cymraeg, sy’n cynnwys:
    - cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
    - darparu hyfforddiant i ymarferwyr drwy’r Cynllun Sabathol;
    - darparu hyfforddiant iaith Gymraeg drwy’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol;
    - comisiynu adnoddau addysgu a dysgu;
    - hyrwyddo trosglwyddo’r iaith o fewn teuluoedd;
    - gwaith ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â’r Gymraeg mewn Addysg;
    - cyflwyno’r Siarter iaith Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg;
    - cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

- Mae'r gwaelodlin diwygiedig ar gyfer 2018-19 yn cynnwys dileu'r dyraniad o £5.0 miliwn ar gyfer un flwyddyn a ddyfarnwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2017-18, fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ynghylch y gyllideb, sydd i’w ddefnyddio i wella a chryfhau’r swyddogaeth hyrwyddo y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â hi.

- Bydd cynnydd o £7.13 miliwn yn y Weithred y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2018-19. Fel rhan o'r cytundeb â Phlaid Cymru ynghylch y gyllideb - mae hyn yn cynnwys cyfanswm dyraniadau gwerth £6.5m sy'n cynnwys £0.5m ar gyfer darparu Gwell adnoddau addysg dwyieithog; £1.0m ar gyfer y Mudiad Meithrin; a £5.0 miliwn ar gyfer cyllido'r Gymraeg.

- Trosglwyddir symiau eraill i mewn hefyd sef £0.330 miliwn o’r BEL Gwariant Rhaglenni CCAUC (4620) ar gyfer y Cynllun Ysgoloriaethau Cyfrwng Cymraeg a £0.300 miliwn o MEG Plant a Chymunedau ar gyfer y Mudiad Meithrin.

- Trosglwyddwyd £0.300 miliwn hefyd o’r BEL Cyfnod Sylfaen (5501) ar gyfer y Mudiad Meithrin.

- Fel rhan o’r adolygiad i ymateb i leihad mewn cyllidebau, nodwyd gostyngiad o £0.300 miliwn drwy leihau cyllid ar gyfer sawl prosiect ar draws y BEL Strategaeth Addysg Gymraeg, drwy arbedion o ganlyniad i gyfuniad o broseictau’n dod iben ac ailflaenoriaethu cyllid..

***Y Gymraeg***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 6,964 | - | 6,964 | - | 6,964 |

- Cyhoeddwyd strategaeth llywdoraeth Cymru *Cymraeg 2050* ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n cynnwys ymrwymiad trawslywodraethol i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r cam gweitherdu hwn yn cefnogi gweithgareddau a rhaglenni o dan thema 2 (cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg) a thema 3 (Creu amodau ffafriol) y strategaeth Cyrmaeg 2050.

- Mae'r cyllid sy'n ymwneud â Chomisiynydd y Gymraeg yn cefnogi gwaith sy'n cynnwys:
    - Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Gymraeg;
    - Hyrwyddo a hwylsuo'r defnydd o'r Gymraeg;
    - Cynnal ymchwliadau i honiadau o amharu ar ryddid unioglion i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd

- Nid oes dim newidiadau wedi bod i'r gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2018-19 na 2019-20

***Gweithred Cymorth Cyflawni***

| Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19<br><br>£000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu<br><br>£000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20<br><br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| 1,945 | -375 | 1,570 | -69 | 1,501 |

- Mae'r Weithred hon yn talu am farchnata a chyfathrebu, ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ar gyfer rhaglen Remploy, sy'n cael ei chyllido o MEG Addysg, er bod cyfrifoldeb am bolisi'n gorwedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant.

- Gostyngiadau i'r cyllidebau a ganlyn sy'n gyfrifol am y newid:

    - Gostyngiad o £0.383 miliwn ar gyfer Remploy yn 2018-19 a £0.028 miliwn arall yn 2019-20 pan fydd yr ymrwymiadau i Remploy yn dod i ben;

    - £0.006 miliwn o'r gyllideb cyhoeddiadau yn 2018-19 a £0.006 miliwn arall yn 2019-20 drwy ddatgomisiynu gwefan Dysgu Cymru erbyn mis Medi 2018, gan symud y cynnwys i Hwb neu i Ddysgu Cymru cyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd;

- £0.01 miliwn o'r gyllideb cyhoeddiadau yn 2018-19 a £0.012 miliwn arall yn 2019-20 drwy ddefnyddio rhagor ar adnoddau digidol a bydd angen parhau i ddatblygu ymgyrchoedd mewnol i gefnogi newid ymddygiad nes bydd penderfyniad ynghylch a fydd hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei gadw y tu mewn i'r Llywodraeth ynteu'n symud y tu allan iddi; a

- chynnydd o £0.024 miliwn i'r gyllideb Tystiolaeth ac Ymchwil oherwydd proffil taliadau ar gyfer PISA 2018.

***Cyfalaf - Gweithred Ystadau a'r Ddarpariaeth TG***

| Cynlluniau 2018-19 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18. £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 £000 | Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18. £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 £000 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18. £000 | Newidiadau i'r Gyllideb ac Ailflaenoriaethu £000 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 128,061 | 40,000 | 168,061 | 135,745 | 40,400 | 176,145 | 143,890 | 10,000 | 153,890 |

- Mae'r gyllideb hon yn cefnogi Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif. Ym Mand A y rhaglen buddsoddir mwy nag £1.4 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd a ddaw i ben yn 2019. Bydd ardal pob awdurdod lleol yn elwa o'r rhaglen wella sylweddol hon oherwydd bydd 150 o ysgolion a cholegau'n cael eu hailadeiladu a'u hadnewyddu. Bydd y gyllideb hon yn cael ei defnyddio hefyd i gefnogi unrhyw ofynion cyllido cyfalaf i wireddu ein blaenoriaethau addysg, gan gynnwys maint dosbarthiadau a sicrhau bod ysgolion yn cael blaenoriaeth o ran cysylltu â band eang cyflym iawn. Bydd y cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer Rhesymoli'r Ystâd AU, cymorth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol mewn Sefydliadau Addysg Bellach a chyfararp o safn diwydaitn yn cael ei gynnwys o fewn y gyllideb hon.

- Dyrannwyd symiau ychwanegol i'r rhaglen, sef £40.0 miliwn, yn 2018-19, £40.4 miliwn yn 2019-20 a £10.0 miliwn yn 2020-21 Cyfeirir at bwrpas y dyraniadau ychwanegol yn y Papur Tystiolaeth.

**PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) ADDYSG**

**Y GYLLIDEB ADNODDAU**

| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2016-17 | Alldro a Ragwelir 2017-18 (Cyfnod 6) | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | Addasiadau i'r Gwaelodlin | Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2018-19 | Trosglwyddiadau o fewn MEG 2018-19 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | Trosglwyddiadau MEG i MEG 2019-20 | Trosglwyddiadau o fewn MEG 2019-20 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llythrennedd a Rhifedd** | 4462 | Llythrennedd a Rhifedd | 4,727 | 6,956 | 6,956 | -2,500 | 4,456 | 3,000 | | | 7,456 | -900 | | | 6,556 |
| | | **Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd** | **4,727** | **6,956** | **6,956** | **-2,500** | **4,456** | **3,000** | **0** | **0** | **7,456** | **-900** | **0** | **0** | **6,556** |
| **Cwricwlwm** | 4761 | Dysgu 14-19 yng Nghymru | -50 | | | | | | | | | | | | |
| | 5162 | Cwricwlwm ac Asesu | 10,243 | 4,907 | 8,450 | | 8,450 | -30 | -1,432 | -422 | 6,566 | | 1,000 | -1,284 | 6,282 |
| | 5167 | Adolygu'r Cwricwlwm | 18,505 | 5,613 | 7,100 | -1,700 | 5,400 | | | | 5,400 | | | | 5,400 |
| | 5501 | Cyfnod Sylfaen | 1,538 | 1,551 | 1,851 | | 1,851 | | -300 | | 1,551 | | | | 1,551 |
| | | **Cyfanswm Cwricwlwm** | **30,236** | **12,071** | **17,401** | **-1,700** | **15,701** | **-30** | **-1,732** | **-422** | **13,517** | **0** | **1,000** | **-1,284** | **13,233** |
| **Addysgu ac Arwain** | 4880 | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 19,486 | 19,336 | 20,731 | -1,000 | 19,731 | | -90 | -837 | 18,804 | | | -140 | 18,664 |
| | | **Cyfanswm Addysgu ac Arwain** | **19,486** | **19,336** | **20,731** | **-1,000** | **19,731** | **0** | **-90** | **-837** | **18,804** | **0** | **0** | **-140** | **18,664** |
| **Cymwysterau** | 5166 | Cymwysterau Cymru | 8,051 | 7,619 | 8,142 | | 8,142 | | | | 8,142 | | | | 8,142 |
| | | **Cyfanswm Cymwysterau** | **8,051** | **7,619** | **8,142** | **0** | **8,142** | **0** | **0** | **0** | **8,142** | **0** | **0** | **0** | **8,142** |
| **Addysg Ôl-16** | 4763 | Darpariaeth Addysg Bellach | 410,032 | 406,887 | 406,886 | -5,005 | 401,881 | | | 4,565 | 406,446 | | | -9,827 | 396,619 |
| | 4766 | Polisi AB a Pholisi Prentisiaethau | 990 | | | | | | | | | | | | |
| | | **Cyfanswm Addysg Ôl-16** | **411,022** | **406,887** | **406,886** | **-5,005** | **401,881** | **0** | **0** | **4,565** | **406,446** | **0** | **0** | **-9,827** | **396,619** |
| **Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG** | 4765 | Seilwaith Addysg | -106 | -102 | | | | | | | | | | | |
| | | **Cyfanswm yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG** | **-106** | **-102** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Addysg Uwch** | 4620 | CCAUC - Gwariant ar Raglenni | 89,305 | 110,537 | 104,296 | -24,995 | 79,301 | | 8,822 | 20,306 | 108,429 | | 11,552 | 4,689 | 124,670 |
| | 4600 | CCAUC - Costau Cynnal | 2,491 | | | | | | | | | | | | |
| | 4640 | CCAUC - Derbyniadau | -351 | | | | | | | | | | | | |
| | 4681 | Er Mwyn Ein Dyfodol - Coleg Ffederal ac Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd | 30,498 | | | | | | | | | | | | |
| | 4660 | CCAUC - Cyfalaf | 82 | 90 | 90 | | 90 | | | | 90 | | | | 90 |
| | | **Cyfanswm Addysg Uwch** | **122,025** | **110,627** | **104,386** | **-24,995** | **79,391** | **0** | **8,822** | **20,306** | **108,519** | **0** | **11,552** | **4,689** | **124,760** |
| **Safonau Addysg** | 5120 | Llywodraethu Ysgolion | 1,071 | 1,082 | 1,124 | | 1,124 | | | -1,088 | 36 | | | | 36 |
| | 5126 | Grant Gwella Ysgolion | 134,957 | 139,237 | 134,282 | | 134,282 | | 1,522 | -14,145 | 121,659 | | -1,000 | -10,093 | 110,566 |
| | 5511 | Codi Safonau Ysgolion | 3,647 | 20,000 | 20,000 | | 20,000 | | 5,000 | | 25,000 | | 500 | | 25,500 |
| | 5512 | Cefnogi Safonau Ysgolion | 1,631 | 1,278 | 1,394 | | 1,394 | | -5,000 | 4,800 | 1,194 | | -500 | 500 | 1,194 |
| | | **Cyfanswm Safonau Addysg** | **141,306** | **161,597** | **156,800** | **0** | **156,800** | **0** | **1,522** | **-10,433** | **147,889** | **0** | **-1,000** | **-9,593** | **137,296** |
| **Grant Datblygu Disgyblion** | 4764 | Grant Datblygu Disgyblion | 87,640 | 92,116 | 93,746 | | 93,746 | | | | 93,746 | | | | 93,746 |
| | | **Cyfanswm Grant Datblygu Disgyblion** | **87,640** | **92,116** | **93,746** | **0** | **93,746** | **0** | **0** | **0** | **93,746** | **0** | **0** | **0** | **93,746** |
| **TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | 5320 | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 6,915 | 6,571 | 6,659 | | 6,659 | | | -50 | 6,609 | | | | 6,609 |
| | | **Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth** | **6,915** | **6,571** | **6,659** | **0** | **6,659** | **0** | **0** | **-50** | **6,609** | **0** | **0** | **0** | **6,609** |
| **Lles plant a phobl ifanc** | 5115 | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 2,505 | 2,595 | 2,786 | | 2,786 | | | | 2,786 | | | | 2,786 |
| | 5219 | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 2,261 | 3,730 | 3,730 | | 3,730 | | | | 3,730 | | | | 3,730 |
| | 5271 | Cynhwysiant a Chefnogaeth Ôl-16 ar gyfer Arbenigwr Dysgu | 12,541 | 13,919 | 12,481 | | 12,481 | | | | 12,481 | | | | 12,481 |
| | | **Cyfanswm Lles plant a phobl ifanc** | **17,307** | **20,244** | **18,997** | **0** | **18,997** | **0** | **0** | **0** | **18,997** | **0** | **0** | **0** | **18,997** |
| **Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | 4704 | Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr | 447,054 | 464,727 | 468,127 | -800 | 467,327 | | -12,147 | 5,000 | 460,180 | | -13,557 | -10,320 | 436,303 |
| | 4706 | Costau Gweinyddu y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau EM | 13,354 | 11,179 | 9,079 | 264 | 9,343 | -476 | 2,995 | 2,000 | 13,862 | -144 | 2,005 | -2,000 | 13,723 |
| | 4707 | Darpariaeth y Gyllideb Andoddau ar gyfer Benthyciadau i Fyfyrwyr | 305,264 | 106,849 | 106,849 | | 106,849 | | | | 106,849 | | | | 106,849 |
| | 4709 | Dyfarniadau Cymorth wedi'u Targedu i Fyfyrwyr | 6,493 | 6,297 | 6,297 | | 6,297 | | | | 6,297 | | | | 6,297 |
| | | **Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | **772,165** | **589,052** | **590,352** | **-536** | **589,816** | **-476** | **-9,152** | **7,000** | **587,188** | **-144** | **-11,552** | **-12,320** | **563,172** |
| **Ymgysylltu â Disgyblion** | 5224 | Mynd i'r Afael â Dadrithiad | 214 | 435 | 600 | | 600 | | | -85 | 515 | | | | 515 |
| | | **Cyfanswm Ymgysylltu â Disgyblion** | **214** | **435** | **600** | **0** | **600** | **0** | **0** | **-85** | **515** | **0** | **0** | **0** | **515** |
| **Dewisiadau Addysg a Gyrfa** | 4480 | Gyrfa Cymru | 18,538 | | | | | | | | | | | | |
| | | **Cyfanswm Gyrfa Cymru** | **18,538** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth** | 4751 | Dysgu Troseddwyr | 2,788 | 3,328 | 3,328 | | 3,328 | | | | 3,328 | | | | 3,328 |
| | 4760 | Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth | 5,163 | 5,211 | 5,211 | | 5,211 | | | -385 | 4,826 | | | | 4,826 |
| | | **Cyfanswm Ymgysylltu â Phobl Ifanc a Chyflogaeth** | **7,951** | **8,539** | **8,539** | **0** | **8,539** | **0** | **0** | **-385** | **8,154** | **0** | **0** | **0** | **8,154** |
| **Y Gymraeg mewn Addysg** | 5164 | Y Gymraeg mewn Addysg | 17,760 | 29,531 | 29,231 | -5,000 | 24,231 | 300 | 630 | 6,200 | 31,361 | | | | 31,361 |
| | | **Cyfanswm y Gymraeg mewn Addysg** | **17,760** | **29,531** | **29,231** | **-5,000** | **24,231** | **300** | **630** | **6,200** | **31,361** | **0** | **0** | **0** | **31,361** |
| **Y Gymraeg** | 6020 | Y Gymraeg | 4,778 | 3,964 | 3,964 | | 3,964 | | -51 | | 3,913 | | | | 3,913 |
| | 6021 | Comisiynydd y Gymraeg | 3,065 | 3,051 | 3,000 | | 3,000 | | 51 | | 3,051 | | | | 3,051 |
| | | **Cyfanswm y Gymraeg** | **7,843** | **7,015** | **6,964** | **0** | **6,964** | **0** | **0** | **0** | **6,964** | **0** | **0** | **0** | **6,964** |
| **Cymorth i Gyflawni** | 4466 | Cyfathrebu Strategol | 1,651 | 1,027 | 1,061 | | 1,061 | | | -399 | 662 | | | -45 | 617 |
| | 5480 | Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol | 983 | 887 | 884 | | 884 | | | 24 | 908 | | | -24 | 884 |
| | | **Cyfanswm Cymorth i Gyflawni** | **2,634** | **1,914** | **1,945** | **0** | **1,945** | **0** | **0** | **-375** | **1,570** | **0** | **0** | **-69** | **1,501** |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU** | | | **1,675,714** | **1,480,408** | **1,478,335** | **-40,736** | **1,437,599** | **2,794** | **0** | **25,484** | **1,465,877** | **-1,044** | **0** | **-28,544** | **1,436,289** |

| Y GYLLIDEB GYFALAF | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2016-17 | Alldro a Ragwelir 2017-18 | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | | | Cynlluniau 2018-19 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18 | Trosglwyddiadau o fewn MEG 2018-19 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | Cynlluniau 2019-20 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18 | Trosglwyddiadau o fewn MEG 2019-20 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 | Cynlluniau 2020-21 yn unol â Chyllideb Derfynol 2017-18 | Trosglwyddiadau o fewn MEG 2020-21 | Dyraniadau / Gostyngiadau 2020-21 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 |
| **Yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG** | 4765 | Seilwaith Addysg | 133,024 | 100,813 | 100,813 | | | 128,061 | | 40,000 | 168,061 | 135,745 | | 40,400 | 176,145 | 143,890 | | 10,000 | 153,890 |
| | 5020 | Cymorth Cyffredinol | 43,021 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm yr Ystâd a'r Ddarpariaeth TG** | | **176,045** | **100,813** | **100,813** | | | **128,061** | **0** | **40,000** | **168,061** | **135,745** | **0** | **40,400** | **176,145** | **143,890** | **0** | **10,000** | **153,890** |
| **Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | 4706 | Costau Gweinyddu y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr/Cyllid a Thollau EM | | 11,900 | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | | **0** | **11,900** | **0** | | | | | | | | | | | | | | |
| Dewisiadau Addysg a Gyrfa | 4480 | Gyrfa Cymru | -538 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gyrfa Cymru** | | **-538** | **0** | **0** | | | | | | | | | | | | | | |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF** | | | **175,507** | **112,713** | **100,813** | | | **128,061** | **0** | **40,000** | **168,061** | **135,745** | **0** | **40,400** | **176,145** | **143,890** | **0** | **10,000** | **153,890** |

| Y GYLLIDEB ADNODDAU - Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2016-17 | Alldro a Ragwelir 2017-18 | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | | | | | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | | | Dyraniadau / Gostyngiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
| **Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | 4713 | Benthyciadau i Fyfyrwyr - AME | -64,019 | -123,760 | -104,958 | | | | | -23,424 | -128,382 | | | -10,017 | -138,399 |
| | **Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | | **-64,019** | **-123,760** | **-104,958** | | | | | **-23,424** | **-128,382** | | | **-10,017** | **-138,399** |
| **Dewisiadau Addysg a Gyrfa** | 4483 | Gyrfa Cymru - AME | 12,429 | | | | | | | | | | | | |
| | **Cyfanswm Gyrfa Cymru AME** | | **12,429** | **0** | | | | | | | | | | | |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU AME** | | | **-51,590** | **-123,760** | **-104,958** | | | | | **-23,424** | **-128,382** | | | **-10,017** | **-138,399** |

| Y GYLLIDEB GYFALAF - Gwariant a Reolir yn Flynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cam Gweithredu | Rhif BEL | Disgrifiad o'r BEL | Alldro Terfynol 2016-17 | Alldro a Ragwelir 2017-18 | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | | | | | Dyraniadau / Gostyngiadau 2018-19 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | | | Dyraniadau / Gostyngiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
| **Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | 4713 | Benthyciadau i Fyfyrwyr - AME | 421,991 | 522,873 | 513,397 | | | | | 145,042 | 658,439 | | | 158,044 | 816,483 |
| | **Cyfanswm Cymorth i ddysgwyr ôl-16** | | **421,991** | **522,873** | **513,397** | | | | | **145,042** | **658,439** | | | **158,044** | **816,483** |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB GYFALAF AME** | | | **421,991** | **522,873** | **513,397** | | | | | **145,042** | **658,439** | | | **158,044** | **816,483** |

| ADDYSG - CRYNODEB | Alldro Terfynol 2016-17 | Alldro a Ragwelir 2017-18 | Cyllideb Atodol 2017-18 Mehefin 2017 | Addasiadau i'r Gwaelodlin | Gwaelodlin Diwygiedig 2018-19 | Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gweriddiol 2018-19 | Newidiadau 2018-19 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2018-19 | Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gweriddiol 2019-20 | Newidiadau 2019-20 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2019-20 | Gwaelodlin Adnoddau Diwygiedig / Cynlluniau Cyfalaf Gweriddiol 2020-21 | Newidiadau 2020-21 | Cynlluniau Newydd Cyllideb Ddrafft 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Adnoddau | 1,675,714 | 1,480,408 | 1,478,335 | -40,736 | 1,437,599 | 1,437,599 | 28,278 | 1,465,877 | 1,465,877 | -29,588 | 1,436,289 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfalaf (Dim Gwaelodlin Cyfalaf) | 175,507 | 112,713 | 100,813 | 0 | 100,813 | 128,061 | 40,000 | 168,061 | 135,745 | 40,400 | 176,145 | 143,890 | 10,000 | 153,890 |
| **Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf** | **1,851,221** | **1,593,121** | **1,579,148** | **-40,736** | **1,538,412** | **1,565,660** | **68,278** | **1,633,938** | **1,601,622** | **10,812** | **1,612,434** | **143,890** | **10,000** | **153,890** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| Adnoddau AME | -51,590 | -123,760 | -104,958 | 0 | -104,958 | -104,958 | -23,424 | -128,382 | -128,382 | -10,017 | -138,399 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfalaf AME | 421,991 | 522,873 | 513,397 | 0 | 513,397 | 513,397 | 145,042 | 658,439 | 658,439 | 158,044 | 816,483 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm AME** | **370,401** | **399,113** | **408,439** | **0** | **408,439** | **408,439** | **121,618** | **530,057** | **530,057** | **148,027** | **678,084** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| **ADDYSG - CYFANSWM Y GYLLIDEB** | **2,221,622** | **1,992,234** | **1,987,587** | **-40,736** | **1,946,851** | **1,974,099** | **189,896** | **2,163,995** | **2,131,679** | **158,839** | **2,290,518** | **143,890** | **10,000** | **153,890** |